# ECO'R WYDDFA

RHIF 28 GORFFENNAF 1978 Pris: 10c


## COFIWCH...

... na fydd rhifyn o'r ECO yn cael ei gyhoeddi y mis nesaf. Mae hyd yn oed gweithwyr yr *Eco* angen seibiant! Mwynhewch chwithau eich gwyliau.

Daw'r rhifyn nesa' allan ddydd IAU, AWST 31. Deunydd i law y golygyddion perthnasol, os gwelwch yn dda, erbyn AWST 23.

# HEL PRES

**YM MRO yr *Eco* y dyddiau hyn y mae pobl ddigon call yn mynd ati i wneud y pethau rhyfeddaf dan haul ac eraill yn crafu eu pennau yn ceisio meddwl 'am rywbeth gwahanol' i'w wneud.**

Eu bwriad yw codi arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol 1979 a gynhelir yng Nghaernarfon a'r gobaith yw y daw £60,000 i law o'r gwahanol bentrefi yn dilyn gweithgareddau sy'n amrywio o gynnal nosweithiau coffi (digon normal) i fwyta nionod (digon abnormal!).

"Tuedda rhai pobl i feddwl fod popeth yn iawn ar y Steddfod erbyn hyn wedi i'r Swyddfa Gymreig roi £275,000 inni", meddai Mr. John Roberts, Trefnydd yr Ŵyl yn y Gogledd, "ond tydi hynny ddim yn wir. Mae angen pob ceiniog arnom."

"Wedi'r cyfan, o'r arian hwn aiff £200,000 tuag at ddigolledu'r Eisteddfod wedi cost prynu'r pafiliwn a cholled Wrecsam; wedyn mae £75,000 yn weddill i symud y pafiliwn o Gaerdydd i Gaernarfon ond bydd cost wirioneddol hynny gymaint â hynny", meddai.

Felly, 'does ryfedd fod pobl y pentrefi o gwmpas Caernarfon yn crafu eu pennau yn meddwl am ddulliau codi arian.

"Mae'r arian o'r pentrefi yn dod i mewn, ond mae yna dipyn o waith hel eto," meddai Osian Wyn Jones, Trefnydd Cynorthwyol y Steddfod.

"Y mae rhai ardaloedd ymhell ar y blaen, ond mae rhai eraill ar ei hôl hi".

Ymhlith yr ardaloedd blaengar y mae Llanberis, er enghraifft, lle mae brwdfrydedd chwilboeth o'r bron ynglŷn â chodi arian i'r Brifwyl.

Mewn Ffair Wanwyn yn Llanberis fis Mai codwyd dros £400 a chasglwyd dros £250 mewn clwb 300.

Ond os yw'r pentrefi bach ar y blaen, mae tref Caernarfon ei hun ar ei hôl hi gydag ond rhyw ddwy fil o'r ugain mil o bunnoedd y gofynnir i'r dref eu hel wedi dod i law — a dim ond blwyddyn i fynd.

Y gŵyn fwyaf yn y pentrefi yw fod yn rhaid mynd ar ofyn yr un bobl o hyd ac mae pawb am y gorau yn ceisio dyfeisio ffyrdd gwahanol o godi arian a'i gwneud hi'n haws i bobl roi.

Mae rafflau, a chlybiau cannoedd, yn bethau poblogaidd iawn ond yn llai cyffredin yw pethau fel gemau giamocs fel y rhai rhwng y Waunfawr, Llanrug a Deiniolen.

Mae Llanrug ar ôl pres pobl o'r tu allan gyda chynllun sydd ar y gweill i gynnal helfa drysor ar gyfer ymwelwyr â'r ardal. Mae Cronfa Rigarug yn syniad gwreiddiol iawn.

Yn y Waunfawr, clustnodir wythnos arbennig yn yr haf i godi arian a chynigir gwobrau am ddringo Moel Eilio. Ceir hefyd gystadleuaeth llinell goll fisol gyda'r ymgeiswyr yn talu am bob cais.

Yn Llanrug hefyd bu cerddwyr yn cerdded llwybrau'r plwyf gan godi £250.

Un peth sy'n sicr, mae pobl Bro'r Eco am wneud y gwaith poenus o godi arian mor ddifyr â phosibl.

Arian a gasglwyd yn wreiddiol ym 1959 roddodd gychwyn i Gronfa Leol Nant Peris ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979.

Dywedodd Trysorydd y Gronfa Leol, Mr. John W. Ellis (Perisfab), i'r arian a oedd yn weddill yn y pentref wedi casglu ar gyfer Eisteddfod Caernarfon 1959 gael ei roi mewn cyfrif post gan obeithio ychwanegu ato i sefydlu cae chwarae i blant y pentref.

Yn anffodus, ni ddaeth yna gae chwarae, a defnyddiwyd peth o'r arian i gynorthwyo carnifal y Nant o bryd i'w gilydd.

Erbyn lansio apêl 1979, yr oedd £18.10 yn weddill a defnyddiwyd y rheini i roi cychwyn ar bethau.

### YMDDIHEURIAD

Tybed a gawn ni faddeuant gan Seindorf Deiniolen a'u llu cefnogwyr am gyhoeddi yn y rhifyn diwethaf eu bod wedi ennill mewn cystadleuaeth i fandiau Cymru ym Mhrestatyn yn ddiweddar? Er mai ail oeddynt mewn difri mae'n llongyfarchiadau iddynt yr un mor wresog. —Gol.

# BRENHINES Y BÊL




**Chwe mis yn ôl proffwydodd beirniad craff Bwrdd Golygyddol yr *Eco* fod dyfodol disglair o flaen Dilys Wyn Jones, Bryngwyn, Llanrug! A dyma hi, unwaith eto, yn harddu'r dudalen flaen.**

Gwelsom ei llun y tro diwethaf yn rhifyn y Nadolig o'r *Eco*, ychydig wythnosau ar ôl iddi gipio'r teitl 'Miss Bangor City F.C. 1977'. Ers hynny, mae'n amlwg ei bod wedi mynd o nerth i nerth oherwydd ym mis Ebrill, yn Wrecsam, enillodd y gystadleuaeth genedlaethol 'Brenhines Pêl-droed Cymru'. Yna, fis yn ôl yng Nghaeredin yn yr Alban dewiswyd hi yn 'Frenhines Pêl-droed y Deyrnas Unedig' gyda gwyliau ym Majorca fel rhan o'r wobr.

Mae'n siŵr y byddem i gyd yn cytuno mai coroni Dilys yw'r penderfyniad callaf ym myd pêl-droed sydd wedi ei wneud yn yr Alban yn ddiweddar!

# BAND DEINIOLEN

### I LANDUDNO A'R ALMAEN!

**OS EWCH chi i Landudno a cherdded y promenâd ar nos Sadwrn neu b'nawn Sul yr haf hwn mi ddylech deimlo reit gartrefol. Oherwydd yno bydd neb llai na Band Deiniolen yn diddanu'r ymwelwyr.**

Pan ddarllenwyd mewn papur newydd fod tref Llandudno yn cael trafferth i godi band cysylltwyd ar unwaith â Chyngor y Dref a chael y gontract.

Bydd y Band yn cynnal eu cyngerdd cyntaf ar nos Sadwrn, Gorffennaf 1, ar ôl iddynt gymryd rhan yn y pnawn gyda bandiau eraill y cylch, yng ngorymdaith Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon.

Tua 1½ awr fydd hyd pob perfformiad a'r tâl fydd gymaint ag y gallent ei gasglu wrth fynd â bocsus hel pres o gwmpas y gynulleidfa.

Mi fydd pres yn handi iawn eleni oherwydd os ydych chi am glywed Band Deiniolen rhwng 14 Hydref a 22 Hydref eleni rhaid i chi fynd yr holl ffordd i Soest ger Dusseldorf yng Ngorllewin yr Almaen.

Gwahoddwyd y band i'r dref Almaenig i gynnal cyfres o gyngherddau i fandiau lleol (chwaer-dref i Fangor ydy Soest a Deiniolen yw band swyddogol Dinas Bangor).

### HEL PRES

Mae pawb sy'n gysylltiedig â'r band, gan gynnwys Pwyllgor y Merched, a'r gwragedd yn brysur godi pres i dalu am y daith. Eisoes trefnwyd Taith Gerdded ar 19 Awst, Noson Goffi ym mis Medi a Ffair Haf ar Gorffennaf 10 yng Nghanolfan Gymdeithasol Bangor Isaf (nid nepell o hen siop Kwiks). Bydd bws rhad ac am ddim yn teithio i'r ffair o Ddeiniolen. Ceir manylion ar y posteri cyn bo hir.

Mis Hydref yw tymor y Gwyliau Gwin yn yr Almaen. "Ond, cofia, mynd yno i weithio'n galed ydan ni," meddai Meirion Jones, Ysgrifennydd y Band wrth un o ohebwyr yr *Eco*. Choeliwn ni fawr!

# ECO'R WYDDFA

RHIF 28 GORFFENNAF 1978

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd, Nant Peris.

*Cyhoeddwyd gyda chymorth Cymdeithas Gelfyddydau Gogledd Cymru.*

**GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:** Twrog Jones, 23 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

**GOLYGYDD ERTHYGLAU:** Arwel Jones, Gwên-y-Wawr, Llanrug (C'fon 3719)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Tony Elliott, Crud y Wawr, Bryneglwys, Penisarwaun.

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun.

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (Llanberis 515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Miss Jane Morris, Blodwel, Dôl Elidir, Llanberis (Llanberis 220)

**FFOTOGRAFFWYR:** Ifan Parry, Morwel, Ceunant. (Waunfawr 321) Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug.

**TREFNYDD GWERTHIANT:** Selwyn Williams, Cartref, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 3577)

**TRYSORYDD:** Gwyn Oliver Jones, 58 Pentre Helen, Deiniolen.

**TREFNYDD GWERTHIANT POST:** Mrs. E. Evans, "Lloc," Llanrug.

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu a nhw yn eich ardaloedd

BETHEL: Geraint Elis, Sycharth, (Portdinorwic 726)
BETWS GARMON: Mrs. Brenda Jones, Bryn Tegid (Waunfawr 294)
BRYNREFAIL: Mrs. Lowri Prys Williams, Godre'r Coed (Llanberis 580)
CEUNANT: Ifan Parry, Morwel (Waunfawr 321)
CWM-Y-GLO: Mrs. Gwyneth Chick, 1 Tan y Bryn, Cwm-y-glo.
DEINIOLEN: Gwyndaf Roberts, 8 Ffordd y Gogledd (Llanberis 427)
DINORWIG: O.R.Williams, 2 Bro Elidir (Llanberis 671)
LLANBERIS: Mrs. Siân Thomas, Foelas, Stryd Newton (Llanberis 220)
NANT PERIS: T.J. Roberts, Llys Awel
LLANRUG: Mrs. Eirlys Pierce, Swyn yr Awel, Llanrug. (C'fon 3776)
PENISARWAUN: Leslie Larsen, Llygad yr Haul, (Llanberis 533)
TAN Y COED: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan y Coed (W'fawr 355)



**W.J.GRIFFITH**

PLYMAR
A GOSODWR
GWRES CANOLOG

PANT TIRION, LLANRUG

*Ffôn: Caernarfon 3248*

GOSODWR SWYDDOGOL
SYSTEMAU
GWRESOGI OLEW

FEDERATION OF MASTER BUILDERS

**BP heat**
A SHELL-MEX

*Dim un dasg rhy fychan,*
*Dim un dasg rhy fawr.*


# LLYTHYRAU

*ATGOFION MEBYD*

*Tua'r flwyddyn 1911–12 cawsom ni yn ysgol bach y Cwm goeden Nadolig fawr o'r Faenol. Daeth Lady Sybil Assheton Smith ei hun i rannu'r anrhegion. Bocs gwnïo gefais i a bu gen i am flynyddoedd. Yna yn yr haf cawsom fynd i'r Faenol am de. Mynd ar y trên o'r Cwm i'r Felinheli a tri neu bedwar o geir –* farm buggies *– yn ein cludo at y Plas. Yno mewn* garage *fawr oedd y byrddau a llieiniau gwyn mawr a'r te yn disgwyl amdanom. Ar ôl cael digon i'w fwyta aethom am* conducted tour *o'r* walled gardens. *Beth wyf yn gofio fwyaf oedd y coed ffrwythau wedi ei* trainio *ar y walia uchel: afalau, gellyg, eirin a* peaches; *a'r coed dan eu sang. Yna i chwarae i gae mawr ar gwr coedwig, a beth oedd yn y goedwig ond ceirw , ond 'doedd wiw mynd yn agos atynt. Yr oedd yn ddiwrnod hynod o braf a ninnau wedi hen flino erbyn hyn. Canodd y bib i'n galw at ein gilydd, a dyna lle 'roedd* hamperi *o* buns *ac orennau. Cawsom* ring game *hefo Lady Sybil– 'B.I.N.G.O. – and his name was Bobby Bingo.' Yna bynsan ac oren i bob un ohonom. I'r ceir â ni ac am y trên i'r Cwm ac adra. Yr oedd yn rhaid diolch am y* treat *ac yr oedd Mr. Joseph Thomas y prifathro wedi sgwennu cân neu ddwy ar gyfer yr achlysur.*

*Mrs. Jennie Evans*
*Plas Pengwaith*

*A oes rhywun arall yn cofio?*

*DRAW DROS Y DON*

*Annwyl Olygydd,*

*Ga'i ddiolch yn garedig i* **Eco'r Wyddfa** *am hanes y Cwm, ac hefyd i Mr. Owen H. Jones, New St., Cwm a Mrs. H. Thomas am benillion 'I Fechgyn Cwm-y-glo'.*

*Mae Thomas John Edwards, Guto Edwards a Dick Edwards yn cael eu henwi. 'Roedd y tri yn frodyr i fy mam sef Mrs. Lydia Mary Price gynt.*

*'Rwyf newydd ddod gartref o'r America wedi bod yn aros gyda merch Dick Edwards, Olwen. 'Roedd hi'n falch iawn o* **Eco'r Wyddfa,** *ac hefyd fy nghyfnither, Evelyn, merch Guto Edwards. Mae Evelyn yn perthyn i glwb dysgu Cymraeg ym Middle Granville, Efrog Newydd, ac yn siarad Cymraeg fel pe tasa hi wedi cael ei geni yng Nghymru .*

*Pan oeddwn yn byw yn Nigeria, West Africa, fe gyfarfûm â dwy chwaer o Bwllheli o'r enw Wilma a Vida Roberts.*

*Meinir Metcalfe*
*(Price gynt o'r Hen Gwm)*
*('nawr yn Scarborough)*

**Beth am air neu lun i'r *Eco* oddi wrth Olwen ac Evelyn? Byddwn yn falch o air bach. — Gol.**

## ALL RYWUN HELPU?

**Anfonodd Mr. T. Ceiriog Williams nodyn i'r *Eco* yn holi am wreiddiau cyfnither iddo sydd yn byw yn yr U.D.A. Meddai Mr. Williams, "Mae'n ymwybodol iawn o'i gwreiddiau Cymreig, yn siarad yr iaith er wedi ei geni draw yn Vermont." 'Roedd ei nain, Ellen, a anwyd tua 1865, yn byw yn 'Dros y Ffordd', Llanrug. Daeth i'r U.D.A. pan oedd tua 3 oed. Merch ydoedd i Griffith Howell Morris ac Ann Parry. Tybed oes rhywun o'r teulu yn byw yn y cyffiniau yn awr? Os gwyddoch a fyddwch cystal ag anfon i Mr. T. Ceiriog Williams, Gwenallt, Marian Glas, Môn?**

### DIOLCH

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cyhoeddi'r Eco.

£1 – Miss Lil Roberts, Elm Bank, Siliwen Road, Bangor.

£1 – Mrs. G.J. Jones, Elidir, Ffordd Farrar, Bangor.

### YN EISIAU

**Cwt Garddio ail law** – Peter W. Hughes, Graianfryn, Stryd yr Orsaf, Llanberis.

*5 Dolafon*
*Cwm-y-glo*

*Annwyl Olygydd,*

*Pleser i mi oedd darllen llythyr Mrs. Eirwen Williams, 1 Bryn Gro yn yr* **Eco** *diwethaf. Soniai am y darlun o Seindorf Llanrug a fu'n gwasanaethu mewn carnifal yng Nghwm-y-glo, gan enwi amryw o'r aelodau yn y cyfnod yma. Dywed hefyd mai Bob Pritchard yw'r unig un sydd ar ôl ohonynt, ond gan fy mod innau yn aelod ar y pryd, ac yn y darlun, "mae dau ar ôl". Gallwn enwi pob aelod o'r Seindorf, a llawer eraill oedd yn y carnifal.*

*Trwy fod cryn amser wedi mynd heibio, hawdd iawn yw cymysgu tipyn ar bethau. Fe gafwyd "uniforms" gan Mr. Alves, ond dim offerynnau. Seindorf Arian oedd yn Llanrug ers rhai blynyddoedd cyn hyn.*

*Mae Eirwen yn sôn am ei thad yn glanhau ei gorn melyn. Carwn ei hatgoffa i'w thad a minnau ymuno â Seindorf y 'R.W.F.* **Territorials'** *yn y flwyddyn 1929, a dyma o lle y daeth y corn melyn mae hi'n gofio, 'rwy'n siŵr.*

*'Rwyf am i Eirwen edrych ar hyd y rhes gyntaf i'r pen draw, yno mae ei diweddar dad-yng-nghyfraith — Owen Eryri Williams gyda'i drombôn.*

*Yn gywir,*
*Owen Williams*
*(Now Bach Cwm)*


15ed o ORFFENNAF

# Carnifal Llanberis

DAI DAVIES, Golgeidwad Wrecsam a Chymru yn ei agor.



Eleni mae'r gwobrau am
Dablo Stryd Ar Olwynion (Agored)
yn £10; £5 a £2.50

HEFYD
Bydd Gwobr Arbennig
o £5 i'r Tablo Gorau yn Llanberis

Ewch ati'n LLU i wisgo'i fyny

# WILLIAM VAUGHAN JONES


### Teyrnged gan Dr. JOHN GWILYM JONES

**YN ÔL Mr. E.P. Evans, hen brifathro Ysgol Sir Caernarfon, William Vaughan Jones oedd y mathemategydd mwyaf disglair a fu yn ei ysgol erioed. Ei unig wendid, ychwanegodd, oedd diffyg uchelgais. 'Does dim dwywaith am eirwirder y gosodiad cyntaf, ond prin bod yr ail yn wir. Yr oedd gan Wil uchelgais. Hwnnw oedd bod yn fo ei hun a neb arall. Nid uchelgais ymwybodol, fwriadol oedd hon o gwbl, ond nodwedd gynhenid naturiol, etifeddol yn ei bersonoliaeth.**

A phersonoliaeth gyfoethog iawn ei hamrywiaeth oedd hi. Na, nid oedd, ond yw, gan iddi ei thoddi ei hun, ei hunoli ei hun mor glòs â'i deulu, â'i gyfeillion, â bro ei febyd ac â chymdeithas ehangach fel bod ei fywyd gweithgar yn annileadwy, a Wil yn dal i fyw.

Ni wn am neb a chydwybod gymdeithasol mor weithredol ganddo, a hynny, nid am ei fod yn ymgyrraedd at ddim byd tebyg i bwysigrwydd personol, nid, a deud y gwir, am ei fod gymaint â hynny'n hoffi nac yn mwynhau'r gwaith, chwaith, ond am y teimlai yn ei galon reidrwydd i wasanaethu. Bu am gyfnod hir yn aelod o'r Cyngor Dosbarth ac yn gadeirydd arno. Pan ddaeth y cyfle 'roedd yn ddewis amlwg i fod yn Ynad Heddwch. Bu ar y Fainc am flynyddoedd a phawb a ddôi ar ei ofyn am arweiniad a chyngor yn eu cael gyda gwên a chwrteisi. Er mor feirniadol y gellir bod o Ynadon – a 'doeddwn i fy hun ddim yn ddieuog – nid oes amheuaeth na chyflawnodd ei ddyletswyddau gydag urddas a chymedroldeb a goddefgarwch a thegwch ond ar yr un pryd gyda'r cyfiawnder y mae swydd o'r fath yn ei mynnu. Gwn i'n bersonol ei fod yn aml yn digalonni, yn llwyr alaru, yn wir, yn llafarog ddiamynedd efo anneallusrwydd aml i feirniad, ond ar waetha'r cwbl, efo rhyw reg bach ddiniwed, yn ennill yn ôl ei gydbwysedd arferol a chwerthin yn ddifalais. Penodwyd ef yn Ynad i ymweld â charchar Walton yn Lerpwl. Âi yno'n gyson am rai blynyddoedd, a minnau'n ysu am gael gwybod beth oedd yn digwydd yno. Chawn i ddim cyfrinach o fath yn y byd, ond deall digon i sylweddoli'r gymysgfa o dosturi a chyfiawnder, o garedigrwydd a diamynedd-dra, o oddefgarwch a llymder yr oedd ymweliadau o'r fath yn eu gorfodi arno. Mae gennyf un cof byw amdano'n cyfarfod Cymro a charcharor yno. Dim llymder y tro hwn, dim ond gofid a thosturi.

Ond nid fel Cynghorydd nac Ynad na dim byd cyhoeddus y cofiaf i Wil, ond fel cyfaill agos, agos ac angor. Y tro cyntaf inni gyfarfod oedd pan drawodd y ddau ohonom ar ein gilydd yn yr un lle ym Mangor yn ystod ein dyddiau Coleg yn gwastraffu ein hamser yn chwarae biliards. Bu'r ddau ohonom yn ystod y blynyddoedd wedyn yn difetha oriau ar y gêm. Nid wyf yn cofio imi erioed ennill. 'Roeddwn i wedi mynd i Lundain yn syth o'r Coleg i ddysgu. Ymhen dwy flynedd wedyn daeth Wil a J.E. Jones ac O.M. Roberts yno, a'r pedwar ohonom yn anwahanadwy. 'Roedd Wil a fi'n dysgu yn yr un ysgol, yn rhygnu byw ar bedair punt ar ddeg y mis – yn wir, yn byw ar gyflogau'n gilydd. Yn aml iawn yn gorfod byw ar ginio tair ceiniog, a'r gweddill, ar wahân i dalu am lety, yn mynd ar theatrau. Gwelsom gannoedd o ddramâu, a'r mathemategwr yn graddol droi yn ddramodydd er i flynyddoedd fynd cyn iddo fynd ati o ddifrif i gyfansoddi. Gadewais i Lundain am Landudno ac ymhen ychydig Wil yn fy nilyn i'r un ysgol, a chydletya â'n gilydd. Yn ystod y Rhyfel aeth ef i ddysgu i Lanfairfechan ac ar ôl hynny, ar gais arbennig, i ddysgu Mathemateg ym Mrynrefail lle bu nes ymddeol ddeng mlynedd yn ôl. Ond lle bynnag yr oeddem nid âi wythnos heibio heb inni gyfarfod ein gilydd. Awn i i'r Waun un dydd Sadwrn a mwynhau bwrlwm diddan a doniol ei fam ac yntau y Sadwrn wedyn i'r Groeslon. A phan briododd Wil a Mary prin yr aeth wythnos heibio heb imi fynd yno a chael ei gartref ef a Mary yn ail gartref i mi. Buom yn gyfeillion agos am dros hanner can mlynedd, ar adegau'n ffraeo hyd at daro bron, ond yn wastadol yn cydbarchu a chydwerthfawrogi ein gilydd.



**Mae'r atgofion yn llu.** 'Doedd neb tebyg i Wil am gofio troeon digri ei blentyndod. Fe'i magwyd efo'i nain ym Mhantycelyn a byddai Wil wrth ei fodd yn ail-fyw'r cyfnod. Adnabod pob iâr yn y lle a'i mympwyon dodwy. Wil yn cau codi i fynd i'r ysgol a'i nain anarferol o ffraeth yn gweiddi a gweiddi. Yntau wedyn am hydoedd yn cribo crop taclus o wallt a'i nain yn gweiddi ar John Fron, ei gyfaill mawr, "Rho lás ar dy gefn i Wil 'ma gael cribo'r gwallt 'na'r holl ffordd i'r ysgol!"

'Roedd yn aelod o Glwb Eryri. Ni chlywais ef erioed yn rhuthro i gymryd rhan mewn dadl, ond pan siaradai, 'roedd ei gyfraniad pwyllog, hamddenol, rhesymegol yn batrwm o fynegiant.

Rhyw dair wythnos yn ôl, cyfarfu Pwyllgor Drama Eisteddfod Caernarfon. Wil, yn naturiol, oedd wedi cael ei benodi'n gadeirydd. 'Roedd mater digon anodd ariannol gerbron. Llywiodd y cwbl gyda chydbwysedd doeth a thawelwch deallus, yn ei fynegi ei hun gydag eglurder diamwys y mathemategydd mewn geirfa ddethol llenor wrth natur. Nid anghofir gan neb a oedd yno yr arddangosiad hwn o gyfuniad amheuthun iawn.

A'r cof olaf sydd gennyf ohono ar wahân i hyder ei lais ar y ffôn y noson cyn ei fynd, yw'r noson cyn iddo fynd i Lerpwl. Pan gyrhaeddais yno 'roedd yn eistedd wrth y bwrdd yn brysur ofalus efo cyfrifon Clwb Gwyrfai. Chododd o mo'i ben nes eu gorffen, ac yna eistedd i barablu'n gellweirus, hen arfer gennym. "Sut 'rwyt ti'n teimlo?" gofynnais. "Iawn, iawn," "Sut wyt ti?" 'Roedd fy mymryn iechyd i yn bwysicach iddo na'r un ei hun.

Ond er cymaint oedd ei ddiddordebau allanol, 'roedd Wil yn bentrefwr, nid yn gymaint o gydwybod ond am mai fo oedd o. I'r Waun y cyfansoddodd ei holl ddramâu. Er imi fod yn gysylltiedig â hwy i gyd, cefais syndod wrth weld nifer ei gyfansoddiadau – amryw byd o rai byr ac o leiaf ddwsin o rai tair act, comedïau y rhan fwyaf ohonynt – yn byrlymu o ffraethineb bachog sydyn a'r sgwrsio ystwyth yn efelychiad dethol o iaith bob dydd ei ardal. Enillodd Dlws y Ddrama yn Eisteddfod Genedlaethol Llandybïe am *Brwyn ar Gomin*, ei unig ddrama ddifrif er nad yw hon chwaith heb ei ffraethineb. Mae'n ddrama sy'n dangos ei wybodaeth hanesyddol fanwl a'r ysfa hynafiaethol a'i gwnaeth yn awdurdod ar ei gynefin. Ac fel gwaith pob gwir ddramodydd y mae'n gytbwys ei safbwynt. Er heb arbed dim ar y gorthrwm milain didrugaredd fe leddfir hyn yn gyfrwys gan yr ystyriaethau gwrthgyferbyniol. Dyma'n sicr ddrama nad yw Cwmnïau Cymru, amatur na phroffesiynol wedi sylweddoli ei gwerth. Gobeithir bellach y gwnânt. Mae *Ar ei Phen i Hun Bach* hithau'n ddrama, er mor fywiog a doniol a chellweirus ddychanol ydyw, yn dangos adnabyddiaeth synhwyrus a sylwgar iawn o hunanoldeb pryfoclyd gwraig weddw, a'r hunanoldeb hwn yn ei ehangu ei hun i fod yn ddarlun o'r hunanoldeb cyffredinol sydd mor ddinistriol yn ein byd. Yn ei ddrama olaf *Wythnos Ola'r Tymor* trawodd ar beth newydd sbon bron yn Gymraeg – drama dditectif. Mae'n dangos holl gyfrwyster y cadw cyfrinach sy'n hudo cynulleidfa o drywydd i drywydd a llwyddo i gadw'r dadleniad hyd y munud olaf bron. Fe'i perfformiwyd mewn amryw byd o fannau a rhôi'n ddieithriad fwyniant i gynulleidfaoedd. Cyn hir fe'i cyhoeddir. Bydd yn gyfraniad ac yn gaffaeliad i'r ddrama yng Nghymru.


Y peth perthnasol wedyn yw mai i'w bentref y cyfansoddai Wil ei holl ddramâu. 'Roedd yn cychwyn bob tro gydag actorion o'i gydnabod agos yn ei feddwl. Gwyddai eu cymwysterau a llwyddo i lunio iaith a chymeriadaeth oedd yn eu ffitio i drwch y blewyn. Gallwn enwi amryw ohonynt ond bodloni ar enw un yn unig, Miss Gwladys Lewis amryddawn a fu'n actio ymhob un o'i ddramâu o'r cychwyn cyntaf. Ac ni allaf yma beidio ag ymfalchïo yn ei ffydd ynof i yn bersonol. Arferwn fynd yn gyson i helpu cynhyrchu'r holl ddramâu hyn, a Wil yn derbyn f'awgrymiadau, iawn neu beidio, fel y gair olaf. Colled drist yw colli'r ffydd hwn.

'Roedd yn actiwr tu hwnt o effeithiol ei hun. Bu'n aelod cyson o Gwmni Drama Gymraeg Llandudno a mwy nag unwaith mewn perfformiadau yn Theatr Fach Glynllifon yr oedd yn un o'r criw cyntaf i'w sefydlu. Fe gofir yn hir am ei gydactio ef a Miss Mat Pritchard fel hen ŵr a hen wraig mewn mynwent.

Ond er cymaint oedd ehangder ei ddiddordebau, ei ymweliadau aml â'r Cyfandir a thaith i'r Aifft mor ddiweddar yn un ohonynt, ei wir fywyd oedd ei gartref, Mary a'i ddwy chwaer a'i frawd a'u teuluoedd. 'Roedd feddwl y byd ohonynt a'i ofal amdanynt ymhell o fod yn ddim ond dyletswydd gŵr a brawd, ond yn gariad di-lol naturiol. 'Rwy'n cofio'r cae lle'r adeiladwyd Hafod y Coed arno yn anialwch. Erbyn heddiw rhwng Mary ac yntau mae'n batrwm o ardd. Ymhyfrydai ynddi, ac nid yn unig yn ei phlanhigion a'i blodau a'i chynnyrch ond ymhob aderyn bach a ddeuai ar ei hedfan iddi. 'Roedd bwrdd bwyd yr adar bach mor bwysig iddo â'i fwrdd bwyd ei hun. Adnabyddai eu canu a'u harferion, a minnau, anwybodusyn, yn yr ardd neu ar ein crwydriadau aml ar hyd llwybrau'r Waun ac yn y coedwigoedd cyfagos yn dysgu gan Mary ac yntau enwau coed a blodau a gwellt ac adar heb sôn am hanes a hynafiaethau'r ardal. 'Roedd ei gynefin yn gymaint rhan ohono â'i law dde.

"No man is an island", meddai John Donne. "Therefore seek not to know for whom the bell tolls; it tolls for thee". Ni fu neb erioed yn llai o ynys na Wil. 'Roedd yn waelodol ymwybodol o'i gymundeb â'i wraig a'i deulu a'i gyfeillion a'i gynefin, a ninnau bellach yn drist ymwybodol fod rhan o'n bywyd ninnau wedi dod i ben hefyd. Ond beth bynnag a ddaeth i ben bydd ei foneddigeiddrwydd dirodres, ei ddidwylledd didderbynwyneb, ei radlonrwydd a'i gwrteisi a'i anwyldeb yn rhan o'r ardal am byth ac yn rhan weithredol ohonom ninnau tra byddwn ni.


Simneiau glân am bris rhesymol gan



**G. LLOYD**

4 PLAS TIRION TERRACE,
LLANRUG

*Defnyddir peiriant sugno i lanhau*

*Ffôn: Caernarfon 4781*

# LLANRUG

MERCHED Y WAWR – Aeth yr aelodau am dro i ymweld ag Amgueddfa Lloyd George yn Llanystumdwy, nos Fawrth, Mehefin 13. Yna i Blas Gwyn, Pentrefelin am swper. Hwn oedd y cyfarfod olaf i Mrs. Margaret Jones, Dwyros, fel ysgrifennydd y gangen a gwnaeth ei gwaith yn drylwyr iawn. Diolchwyd i drefnwyr y daith gan Mrs. Megan Roberts. Bydd y cyfarfod nesaf ar yr ail nos Fawrth ym mis Medi. Croeso i aelodau newydd.

PLAID CYMRU – Cynhaliwyd cyfarfod arbennig nos Wener, Mehefin 2, i baratoi ar gyfer Cynhadledd Arfon ac i drafod penderfyniadau i'r Gynhadledd Flynyddol. Enillwyr y Clwb Cant am fis Mehefin oedd: 1. Mr. E. Jacques, 54 Glanffynnon (Rhif 54); – £10; 2: Mr. W.A. Jones, Y Dalar Deg (Rhif 14) – £2.50; 3: Mr. X, (Rhif 28) – £2.50.

Y CLWB PÊL-DROED – Cynhaliwyd y Cinio Blynyddol yng Ngwesty Victoria, Llanberis, nos Sadwrn, Mehefin 10. Arddangoswyd y tlysau a enillwyd gan y Clwb y tymor hwn, sef Cwpan Iau Gogledd Cymru, Pencampwriaeth Cynghrair Caernarfon a'r Cylch a Chwpan Penrhyn. Cyflwynwyd Mr. Howyn Jones (Rheolwr) â Phlât Arian gan y chwaraewyr ac â thancard gan y pwyllgor. Fel arwydd o ddiolch i'r pwyllgor am waith da'n ystod y tymor, cyflwynwyd tarian fechan i bob un ohonynt gan y chwaraewyr.

Am wasanaeth ffyddlon a di-fwlch o ddeng mlynedd i'r Clwb fel chwaraewr, cyflwynwyd Mr. Alan V. Owen a chloc. Bu Alan yn aelod o'r Clwb er pan ailddechreuodd yn 1968, ac wedi ymddangos yn y tîm tua 350 o weithiau.

I goroni'r noson, cyflwynwyd Tlws Chwarae Teg i'r Clwb gan Mr. Eric Roberts, Ysgrifennydd Cynghrair Caernarfon a'r Cylch. Dyma'r ail dro i'r Clwb ennill y Tlws – y tro cyntaf i unrhyw Glwb ei ennill ddwywaith.

Gair o ddiolch i'r deugain a gymerodd ran yn y Daith Gerdded Noddedig ddiweddar. Daeth pob un o'r deugain yn ôl yn ddiogel ar ôl deuddeng milltir o redeg, cerdded, gwthio, tuchan, chwysu a chropian bron iawn. Diolch hefyd i Mrs. Lovatt am baratoi lluniaeth i'r cerddwyr. 'Roedd ei wir angen ar ambell un. Byddai'r trysorydd yn ddiolchgar pe gellid dod â'r arian i law cyn gynted ag sy'n bosibl os gwelwch yn dda.

Erbyn i'r rhifyn hwn o'r *Eco* ymddangos, bydd Cyfarfod Blynyddol y Clwb wedi bod. Ceir adroddiad yn y rhifyn nesaf.

Y GYMDEITHAS UNDEBOL – Dydd Sadwrn, Mehefin 3, aeth yr aelodau ar daith hanesyddol i Ddyffryn Ardudwy gyda Miss Matt Pritchard, Caernarfon. Ymwelwyd â lleoedd fel Clenennau, Plas Tan y Bwlch, Maentwrog, Harlech, Llandanwg a Llanfair. Trefnwyd y daith gan ysgrifennydd y Gymdeithas, Mrs. Whiteside Thomas. Diolchwyd i'r Arweinydd a'r Ysgrifenyddes am daith ddiddorol ac addysgiadol gan y Parch. W.O. Roberts. (Gweler hanes y daith ar dudalen 14.

BEDYDDIO – Prynhawn Sul, Mehefin 4, bedyddiwyd Ceren Wyn, merch fach Elwyn ac Anwen Roberts, 'Elan Wen' yn y Capel Mawr gan y Gweinidog y Parch. W.O. Roberts.

YN GWELLA – Llawenydd i bawb ohonom yw deall fod Mr. R.M. Williams, Derlwyn a Mr. R.J. Williams, Tremallt yn gwella'n foddhaol ar ôl bod am beth amser yn Ysbyty Môn ac Arfon. Bydded iddynt lwyr wella yn fuan.

CYFARFOD PREGETHU'R CAPEL MAWR – Cynhaliwyd y Cyfarfod Pregethu Blynyddol ddydd Sul, Mai 14 pryd y pregethwyd i gynulliadau lluosog gan y Parch. D. Ben Rees, Lerpwl.

GWIBDAITH UNDEB Y MAMAU – Ddechrau mis Mehefin aeth yr aelodau a'u cyfeillion ar wibdaith i ddinas Caer ac yna i Erddig ger Wrecsam. Cafwyd tywydd ffafriol dros ben a mwynhaodd pawb ei hun yn fawr.

BEDYDD ESGOB – Ymwelodd ei Ras Archesgob Cymru ag Eglwys Sant Mihangel ar Fehefin 11 i weinyddu'r Cymun Bendigaid a Bedydd Esgob. Yr oedd yr Eglwys yn orlawn a chafwyd gwasanaeth arbennig o dda. Derbyniodd 14 y Sacrament o dan law yr Archesgob. Yn ystod y gwasanaeth cyflwynodd a bendithiodd yr Archesgob roddion o fwrdd blodau er cof am Mr. a Mrs. W. Jones, Tanllan wedi ei roi gan Mr. a Mrs. Burrows, Bron yr Wyddfa a Llenni i'r Allor wedi eu rhoi gan Mrs. R.J. Jones, Lyndale. Cynorthwywyd yr Esgob gan y Rheithor a'r organydd oedd Mr. J.T. Morris, Erw Wen. Yr oedd yr Eglwys wedi ei haddurno yn brydferth ar gyfer yr achlysur. Wedi'r gwasanaeth darparwyd lluniaeth ysgafn ar lawnt y Rheithordy i'r rhai a dderbyniwyd a'u rhieni a chawsant gyfarfod â'r Archesgob.

PEINTIO EGLWYS SANT – MIHANGEL – Y mae'r gwaith o beintio'r Eglwys yn mynd ymlaen yn foddhaol. Gwneir y gwaith yn wirfoddol gan feibion yr Eglwys ac y mae'n edrych yn hardd iawn. Gobeithiwn erbyn y rhifyn nesaf y gallwn gofnodi fod y gwaith wedi ei orffen.

GWAELEDD – Drwg gennym ddeall fod Mrs. H.V. Pritchard, Snowdon View wedi bod yn yr ysbyty o dan driniaeth lawfeddygol, hefyd Bryn, mab Mr. a Mrs. Williams, Didfa wedi bod yn yr un ysbyty yn derbyn triniaeth. Y mae Mr. R. Roberts, Yr Efail hefyd yn yr ysbyty ym Mangor. Dymunwn feddyginiaeth lwyr a buan iddynt. Y mae amryw eraill wedi bod yn cwyno yn ddiweddar ac yn eu plith Mrs. Jones, 8 Glanmoelyn, ond da deall ei bod wedi llwyr wella erbyn hyn.

CLWB BLODAU'R GRUG – Cyfarfu'r Clwb ar Fehefin 8 yn y Sefydliad Coffa o dan lywyddiaeth y Rheithor. Y gŵr gwadd oedd Mr. R. Pritchard, Carmel a rhoddodd sgwrs ar ofergoelion a thraddodiadau. Diolchwyd iddo gan Mrs. M. Lloyd Williams, Llys Awen. Y gwestwragedd oedd Mrs. D. Gwynfor Williams, Y Rheithordy, Miss C.J. Roberts, Y Fron, Mrs. Jones, Bodlondeb a Mrs. M. Lloyd Williams, Llys Awen. Rhoddwyd gwobr y raffl gan Mrs. Jones, Bodlondeb ac enillwyd hi gan Miss A.C. Jones, Glanllyn.

Y SEINDORF – Bu'r Seindorf yn brysur yr wythnosau diwethaf – mewn Sioe Amaethyddol ym Methesda, gorymdeithio yng Nghaernarfon gyda thim pel-droed y dref ac yn y Gymanfa Ganu dan nawdd pwyllgor y Carnifal. Arweinydd y gan oedd Mr. Irfon Ellis, Llanberis ac arweinydd y seindorf oedd Mr. Owen Jones.

Yn y pwyllgor diwethaf cydymdeimlwyd â Mr. John Williams, Gweledfa ar farwolaeth ei chwaer yn Neiniolen.

Dymunwyd yn dda i Mr. a Mrs. Stanley Jones ar eu hymadawiad o'r Storfa. Bydd colled fawr ar ôl y ddau. 'Roedd Mr. Stanley Jones yn gyn-aelod o'r seindorf ac yn is-lywydd, a phob amser yn hael ei roddion.

CARTREF NEWYDD – Y mae'r Storfa wedi newid dwylo. Dymunwn yn dda i Mr. a Mrs. Stanley Jones yn eu cartref newydd yn Fferm yr Aden, Pontrug. Yr oeddynt yn boblogaidd iawn, yn garedig a haelionus tuag at bob achos da. Mr. a Mrs. Parry yw'r perchnogion newydd, ac estynnir croeso cynnes iddynt i'n plith.

DIOLCH – Dymuna Mr. a Mrs. Stanley Jones, Fferm yr Aden (gynt o'r Storfa) ddiolch yn gynnes i bentrefwyr Llanrug a'r cylch am eu cefnogaeth yn ystod y deng mlynedd y buont yma, ac y bydd i Mr. a Mrs. Parry, y perchnogion newydd dderbyn yr un gefnogaeth.

MARW – Ddiwedd mis Mai bu farw Mr. J.L. Burrows, 2 Rhes Arfon. 'Roedd Mr. Burrows yn awyddus iawn i ddysgu Cymraeg a gwelid ef yn aml yn oedfaon y bore yng Nghapel Mawr. Cydymdeimlir a'i wraig a'r teulu yn eu profedigaeth.

GWAELEDD – Pan ar fynd i'r wasg daeth y newydd fod Mr. Robert Jones gynt o Idan House, yn wael mewn cartref ym Mhrestatyn. Gobeithiwn gael gwell newyddion amdano yn fuan ac anfonwn ein cofion ato.

LLONGYFARCHIADAU – i Mr. a Mrs. Selwyn Marshall Roberts, Meifod, Ffordd yr Orsaf, ar enedigaeth mab, Deian Marshall.

FFAIR HAF – Cynhelir Ffair Haf Rigarug yn Neuadd Ysgol Brynrefail, nos Iau, Gorffennaf 6ed am 7 o'r gloch. Dewch yn llu.

## PENCAMPWRIAETH SAETHU 50 MEDR CYMRU



Cynhaliwyd Pencampwriaeth Saethu 50 medr Cymru yng Nghlwb Reiffl Cricieth ar ddydd Sul, Mehefin 18. Yr oedd Mr. Elwyn Thomas, Hafan, Ffordd Glanmoelyn ymhlith y rhai oedd yn cystadlu. Mae ef yn gyn-gapten o Glwb Reiffl, Cricieth. Ar ôl pedair blynedd a hanner o gystadlu agored yng Nghymru a Lloegr, mae Elwyn yn awr yn un o'r deg saethwr gorau yng Nghymru gyda reiffl pell .22. Mae't tlws hwn yn dod â'i gyfanswm i 44.

**EISTEDDPOD GENEDLAETHOL FRENHINOL CYMRU CAERNARFON A'R CYLCH 1979**

**GŴYL Y CYHOEDDI**

Nos Sadwrn, Gorffennaf 1, 1978
am 7.30 o'r gloch yn
Sinema'r Majestic, Caernarfon.

**Cyngerdd y Cyhoeddi**
Gyda Chôr Ieuenctid a Chôr yr Eisteddfod
Unawdwyr: Ann Taurins a Robert Wyn Roberts
Tocynnau: Llawr £1.50 Oriel £1
Plant 75c

**Tocynnau i'w cael yn:** Swyddfa'r Eisteddfod, Twtil, Caernarfon
ac yn y siopau canlynol:

Eirug Wyn, Siop y Pentan,
Siopau'r Farchnad, Caernarfon.

Eric Jones, Siop Lyfrau,
Y Bontbridd, Caernarfon

**Bydd Rhestr Testunau'r Eisteddfod ar werth ar derfyn Seremoni'r Cyhoeddi**

# BRYN REFAIL

DIOLCH – Dymuna John a Sheila, Bryn Hyfryd ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion oll, am eu caredigrwydd ar enedigaeth eu mab, Darren Wyn.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr. a Mrs. Owen Jeffrey, Bryn Melyn am fod yn daid a nain am y tro cyntaf, a hefyd i Bryn a Lorraine yn ewythr a modryb. Maent erbyn hyn wedi cartrefu yn Georgia, America ac yn derbyn yr *Eco bob mis.*

SEFYDLIAD Y MERCHED – Nos Iau, Mehefin 15 cawsom gyfarfyddiad o'r Sefydliad a chawsom noson ddifyr iawn o dan ofal Pat Jones. Cafwyd gornest o chwarae dartiau ac enillwyd gan J.A. Roberts. Rhoddwyd y te gan Eifona Jones a Megan Jones a diolchwyd iddynt gan Jennie Hughes. Rhoddwyd anrheg y mis gan H.J. Jones ac fe'i henillwyd gan Betty Owen. Mae trip ar dro ym mis Awst i fynd i Landudno i'r Arcadia a bydd manylion pellach yn nes ymlaen.

CROESO CYNNES – i Mr. a Mrs. Tom Jones sydd wedi cartrefu yn Isallt.

CLWB PEDWAR UGAIN – ennillwyr y mis diwethaf: Mai 6: Carol Houston, 2 Trem Eilian, Islwyn Williams, Godre'r Coed. Islwyn Jones, 3 Trem Eilian. Mai 13: Owen Walters, 3 Minffordd, Eirlys Williams, Marino, Alwyn Roberts, 1 Minffordd. Mai 20: Owen Roberts, Llwyn Helyg, Eurwyn Williams, Llwyncoed, Betty Owen, Tros Afon. Mai 27: Susan Jones, Deiniolen, Carl Hassan, Bryn Myfyr, Mrs. J. Williams, Bryn Melyn.

## CANU'R WERIN

Gorffennaf 6 ag 13 yn Theatr Seilo am 8.30 cynhelir cyflwyniad o ganeuon gwerin, cerddoriaeth telyn a dawnsio. Bydd y perfformwyr yn gwasanaethu'n ddi-dâl gyda'r elw o'r ddwy noson yn cael ei rannu rhwng cronfeydd lleol Eisteddfod Caernarfon yr artistiaid. Bydd Megan Roberts, Arwel Jones, o Lanrug, Dafydd Iwan o'r Waunfawr, Ann Hopcyn, Bethel, Elinor Bennett, Lea Owen a Huw Jones. Hefyd bydd parti dawnsio gwerin Aelwyd Caernarfon dan arweiniad Idwal Williams, Llanrug yn cymryd rhan. Pris y tocynnau fydd 75c.

Mae'r ddwy noson hyn wedi eu trefnu yn dilyn llwyddiant noson gyffelyb a drefnwyd ym mis Mawrth.

**Wavell Roberts**
**CIGYDD**
**LONDON HOUSE**
**LLANRUG**
**Ffôn: Caernarfon 3574**
***PEN CIGYDD Y FRO!***
**Yr ŵyn lleol mwyaf blasus**
**Selsig cartref, cigoedd parod i'w bwyta**
**Archebion ar gyfer y rhewgist**
**MYNNWCH Y GORAU**
**A DEWCH ATOM NI!**

# NANT PERIS

LLONGYFARCHIADAU i Mr. Gwilym J. Roberts ar ei lwyddiant yn Sioe Dyffryn Ogwen gyda'i eifr (dof wrth gwrs). Bydd y Nant cyn bo hir mor enwog am ei geifr ag yw am ei defaid. Daliwch ati.

PRIODAS — Dydd Sadwrn, Mehefin 10 yng Nghapel Rehoboth priodwyd Miss Rhiannon S. Jones, merch ieuengaf Mr. a Mrs. Gwilym S. Jones, Gwynant, a Mr. Rhys Llewelyn, unig fab Mr. a Mrs. Llewelyn Jones, prifathro Ysgol Gyfun Llanrwst. Y morynion oedd Miss Eleri Roberts a Mrs. Helen Abraham. Y gwas oedd Mr. Bryn Roberts. Gwaith Mrs. Awenna Jones, Y Felinheli oedd y deisen briodas — Mrs. Jones yn fodryb i'r briodasferch. Gwasanaethwyd gan y Parch. John Owen, B.A., B.D., Rhuthun, cynweinidog a Mr. Marcus W. Robinson, a fydd yn dechrau ar ei yrfa fel gweinidog Rehoboth ym mis Gorffennaf. Mr. Huw Peris Pritchard oedd yr organydd. Bydd y par ifanc yn cartrefu yn Nhon Teg yn y De lle mae Mr. Llewelyn yn weithiwr cymdeithasol a Mrs. Llewelyn yn nyrs. Dymunwn i'r ddeuddyn ifanc bob hapusrwydd, bendith a llwyddiant yn eu bywyd priodasol.

WELE'N CYCHWYN DRI AR DDEG o GERDDWYR SIONC ar fore teg — Dyna oedd yn digwydd yn y Nant am 10.30 fore Sadwrn, Mehefin 17. Cerdded i godi arian at Gronfa Leol yr Eisteddfod. Roedd amrywiaeth mawr yn oedran y cerddwyr — o naw i ddeg a thrigain, ond 'roedd pawb yn ôl yn Festri Rehoboth i fwynhau lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan rai o'r chwiorydd erbyn chwarter wedi dau. Y daith oedd o'r Nant i lawr i Ben Llyn ac i fyny drwy Fach Wen i Ddinorwig, i lawr Llwybr Main ac yn ôl i'r Nant. Cyn bydd yr Eco wedi ymddangos byddwn yn gwybod yn union faint o arian a gasglwyd, ond yr ydym yn siŵr o fod wedi cyrraedd y nod yr oeddym yn amcanu ato, sef £100. Diolch i'r cerddwyr a'r llu noddwyr, a'r merched am baratoi croeso'n ôl i'r cerddwyr. Diolch hefyd yn arbennig i Mr. Irfon Owen, arweinydd Clwb Ieuenctid y Nant, am drefnu'r daith a chaniatau i rai dipyn hyn ac ieuengach nag aelodau'r clwb gymryd rhan yn y daith. Pa ardal fydd y gyntaf yng nghylch yr Eisteddfod i gyrraedd ei nod? Ai y Nant? Cawn weld.



*Mr. T.J. Roberts (Ysgrifennydd y Pwyllgor) gyda Mr. J.W. Elis, Perisfab, (Trysorydd).*



*Y cerddwyr ynghyd ag aelodau o Bwyllgor Cronfa Leol yr Eisteddfod.*

CARNIFAL — Cynhaliwyd Pwyllgor y Carnifal ar Fehefin 14 a phenderfynwyd cynnal y Carnifal NOS WENER, GORFFENNAF 21. Y llywydd yw Mr. Alwyn Elis, yr Ysgrifennydd yw Mrs. Brenda Roberts, a'r Trysorydd yw Mrs. Rhian Pritchard. Gwnaed apêl daer am gefnogaeth pawb i wneud y Carnifal yn llwyddiant eleni eto.

YN YR YSBYTY — Drwg deall fod Mr. Thomas, Gwesty'r Faenol, yn yr ysbyty ym Mangor. Mawr hyderwn y bydd iddo gael gwellad llwyr a buan ac y gwelwn ef yn ein plith yn fuan iawn eto.

FFORDD NEWYDD I'R NANT — Yn ystod y mis cafodd trigolion y Nant ddod yn ôl o Lanberis i'r Nant ar hyd ffordd na ddaeth neb ar ei hyd o'r blaen, sef trwy dwnnel dan y Derlwyn. Trefnwyd hyn gan y Bwrdd Cynhyrchu Trydan cyn troi yr afon drwy'r twnnel i osgoi Llyn Peris. Diolch i'r Bwrdd am drefnu lluniaeth ar derfyn y daith, rhywbeth bach arbennig i'r Nant fel tâl am y llanast sydd yma er pan ddechreuwyd y gwaith.

# TAN-Y-COED

CYDYMDEIMLWN — â Mrs. E.J. Ellis, 3 Tai Bryngwyn, ei mab Mr. Tom Ellis, Nottingham a'r teulu oll yn eu profedigaeth fawr o golli priod a thad annwyl a thaid cu iawn, bu farw Mr. Joseph Ellis yn Ysbyty Dewi Sant, Mehefin 3.

LLONGYFARCHIADAU — i Linda Wynne Jones, Pant Clyd, disgybl yn Ysgol Brynrefail, a enillodd Dystysgrif Safon yng Ngŵyl Athletau Flynyddol Gwynedd. Cyrhaeddodd Safon o 6 munud yng Nghystadleuaeth 1500m Adran Iau.

Hefyd i'w chwaer, Carol Ann Jones, a gipiodd wyth gwobr ym Mabolgampau Eryri yng Nghwm-y-glo. Ar ei cheffyl Harvey enillodd un wobr gyntaf, un ail wobr, dwy drydedd, un bedwaredd a thair gwobr arbennig.

# PENISARWAUN

TÎM PÊL-DROED (Merched Penisarwaun) — Aeth tîm pêl-droed y merched i Lanrug a churo tîm Llanberis o ddwy gôl i un. Mae'r capten, Glenys Williams, yn dymuno ar ran y tîm, ddiolch i bawb yn gysylltiedig â'r tîm: y merched eu hunain; y rhai a'u helpodd i ymarfer yn y cae; a'r rhai a'u cefnogodd yn Llanrug. Dyma enwau aelodau'r tîm: Glenys Williams (capten); Avril Williams, Ann Evnas, Sandy Evans, Jean Lewis, Jane Smith, Nant Roberts, Delyth Williams, Dorothy Lamb, Marie Bayliss, Gwyneth Green, Janice Williams a Myfanwy Parry.

Colli fu hanes y genod yn y gêm derfynol yn erbyn Deiniolen o 2 gôl i 1. Diolch o galon i chwi ferched, am ddod â chlod i'r pentref.

Hefyd bydd nifer o'r tîm yn mynd i Lanllyfni ar Fehefin 28 i gymryd rhan mewn cystadleuaeth yno.

MARW — Yn ddiweddar bu farw Mr. Elfed Williams, (Craig Dinas gynt) brawd i Mr. Peter Williams, Llwyn Derw, a Mrs. Sam Parry. Mae cydymdeimlad y fro yn mynd tuag at y ddau deulu.

GWELLA — Yr oedd yn dda gennym glywed bod Mr. Hugh Ellis Roberts wedi gwella ar ôl bod yn wael.

CROESO — Estynnwn ein croeso yn ôl i'r pentref i Mrs. Ellis Weirglodd Goch a Mrs. Humphreys, Winllan — sydd wedi gwella ar ôl gwaeledd a dychwelyd i'n plith ar ôl bod yn aros i ffwrdd gyda'u teulu.

CYDYMDEIMLO — Rydym yn cydymdeimlo a Mr. a Mrs. Dafydd Evans, 5 Bryn Eglwys ar farwolaeth brawd Mrs. Evans yn Llangefni.

CARNIFAL — Cofiwch am y Carnifal, ac ati. Gweler isod y rhaglen:
Gorff. 4: Noson Goffi
Gorff. 5: Pêl-droed, 6 chwaraewr ym mhob tim. Ffurfiwch dîm rwan.
Gorff. 6: Mabolgampau
Gorff. 8: Carnifal
Gorff. 14: Helfa Drysor

MARWOLAETH — Yr oedd yn ddrwg gennym glywed am farwolaeth Mrs. Martha Jones, 1 Tai Arthur.

DIOLCH — Carai Mr. a Mrs. G. Williams, 6 Tai Arthur, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd tuag at Iola tra bu yn yr ysbyty yn ddiweddar.

PEN-BLWYDD 18 OED — Carai Bronwen Rees Hughes, ddiolch i bawb am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniodd ar ei phen-blwydd yn 18 oed.

CLWB YR HEULWEN — Bu aelodau Clwb yr Heulwen am eu gwibdaith flynyddol i Fae Colwyn a chafwyd taith ddirgel adref trwy Lanrwst i Fetws-y-coed ac adref trwy Ddyffryn Ogwen. Cafwyd diwrnod braf ac 'roedd pawb wedi mwynhau ei hun.

DAMWAIN — Cafodd Mrs. Evans, Glyn Arthur ddamwain i'w llaw a dymunwn adferiad buan iddi.

EGLWYS ST. HELEN — Cafwyd Noson Goffi gan aelodau Undeb y Mamau nos Lun, Mehefin 12. Gwnaed elw o £13 tuag at Gronfa Cymorth Cristnogol. Hoffai'r Ficer a Mrs. Edwards ddiolch am y rhoddion a'r arian a dderbyniwyd tuag at wneud y noson yn llwyddiannus.

Dymunwn yn dda i Alwyn Williams, 23 Bryntirion sydd wedi bod yn yr ysbyty. Hefyd i Mr. a Mrs. D.A. Evans, Glyn Arthur, sydd wedi bod yn cwyno.

Llongyfarchiadau i'r Parch. R.D. Roberts, Rheithor Llwyngwril, ar gael ei benodi'n Ganon. Mae Mr. Roberts yn frodor o'r pentref, ac yn frawd-yng-nghyfraith i Mrs. M.J. Roberts, Tai Croesion.

Mae cydymdeimlad aelodau'r Eglwys, a'r ardal gyfan yn mynd i deulu'r diweddar Mr. Elfed Williams, Tooting, Llundain; a hefyd i deulu y diweddar Mr. G. Reynolds, Llanberis. Dyma fechgyn oedd wedi eu magu yn Eglwys St. Helen.

Llongyfarchiadau i Alison Jones am wneud yn dda yn y Mabolgampau ym Mangor yn ddiweddar.

GENEDIGAETH — Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. D. Jones, Tai Arthur ar enedigaeth merch fach — Eleri — chwaer i Hefina.

PWYLLGOR CRONFA LEOL YR EISTEDDFOD — Mae'r pwyllgor yn ddiolchgar iawn i bawb a gefnogodd y Gymanfa Ganu yn ddiweddar yng Nghapel Ysgoldy. 'Rydym yn ddyledus iawn i Mr. H.P. Williams, Mochdre, a'i barti, sef Côr Merched Clarion, Bae Colwyn. Yn wir cawsom wledd gerddorol gan y merched dawnus hyn. Ein diolch hefyd i Mr. T. Napier Williams (llywydd y noson); a Mr. J. Griffith, Cae'r Bythod, yr organydd. Diolch hefyd i swyddogion y Capel am eu caredigrwydd; a'r gofalwr am y cydweithrediad, ac i Mrs. Pat Larsen am y piano!

LLONGYFARCHIADAU — a) I Bryn Williams, Tan y Gaer, am ennill gradd B.A. yng Ngholeg y Brifysgol Bangor.
b) i Alison Jones, Cheryl Edwards a Carys Williams ar eu llwyddiant yn y Mabolgampau yn ddiweddar. Gwelwch adroddiad ar dudalen y chwaraeon.

PRIODAS — Dymuniadau gorau i Miss Mari Williams, Cae Hywel, ar achlysur ei phriodas gyda Mr. Ifor Davies, Rhostryfan. Pob hapusrwydd iddynt yn y dyfodol.


YN EISIAU

**Hen Lyfrau Cymraeg**

Pob peth newydd ar gael fel arfer

LLYFRAU — RECORDIAU — CARDIAU

**SIOP Y PENTAN**

YR HEN FARCHNAD, STRYD Y PALAS

CAERNARFON (Ffôn: 5262)

# Llannerch Y Llenor

gan SELWYN GRIFFITH



**GAIR bach o ddiolch yn gyntaf. Diolch yn gynnes iawn i bawb ohonoch a anfonodd gyfarchion yma yn sgîl cadair Ponrhydfendigaid. Diolch am y cardiau a'r galwadau ffôn a'r cyfarchion personol. Diolch i blant Ysgol Dolbadarn hefyd am iddynt fy helpu i ennill y gadair.**

Croeso unwaith eto i Richard Lloyd Jones, 5 Y Ddôl, Bethel. Dyma'i lythyr a'i gerdd:

*Annwyl Selwyn,*

*Rhyw gerdd bach a symbylwyd tra'n sefyll wrth ochr y gof-golofn i arweinwyr y Pasg 1916 yn Iwerddon. Fe saif y gof-golofn y tu mewn i'r Swyddfa Bost yn Nulyn.*

### Y SYLFAEN

Dim ond darn o graig mewn Swyddfa Bost
Ychydig eiriau, cyffes ffydd;
Yr aberth, ing, dyhead,
Man cychwyn Iwerddon rydd.

Dim ond darn o graig yng Nghilmeri draw
Cofgolofn, hagr, brudd;
Yr aberth, ing dyhead,
A diwedd y Gymru rydd.

Dim ond darn o iaith mewn rhandir llwm
Ei gwawdio o ddydd i ddydd,
Yr aberth, ing, dyhead,
Hon yw craig y Gymru rydd.

Richard Lloyd Jones.

Fe arhoswn ni ym Methel, a chroesawn unwaith eto gymydog i Richard, sef Gwilym E. Davies, Y Ddôl — bu ef a minnau yn gydweithwyr am gyfnod yn Ysgol Pen-y-bryn, Bethesda. Mae 'na rywbeth yn awelon Bethel sy'n cynhyrfu'r awen.

### GEM ERYRI

Draw yng nghartref yr awel
Mae man a fu'n guddfan gêl
I'n harwyr a hwy'n tanio,
Dan arfau, rhwng brwydrau'n bro.

Agennau du a chlogwyni, – a llyn
Llonydd, drych y cewri:
Mor arw yw gem Eryri!
Gem wych anial gwm yw hi.

G.E. Davies, Y Ddôl.

Fe drown yn ôl i Bontrhydfendigaid i gloi'r golofn am y tro. Dyma gyfarchiad y Prifardd Dafydd Jones, Ffair Rhos, ar achlysur y cadeirio:

### CADEIRIO'R BARDD

Hawdd, i fyd eisteddfoda, – oedd ei hynt
I'r bardd hwn ddod yma;
Cefnu'n rhydd, ar hirddydd ha
Ar hawddfyd Nant yr Wyddfa.

Hwn, o'i rwn heb dario awr – i chwilio
Am uchelwyl enfawr,
Heb rannu ar lwybr, unawr
Ar dywyn y Marchlyn Mawr.

Uwch ein llennyrch a'n llynnoedd – mae anian
Heddiw'n mynnu 'i chylchoedd;
Mwyn hedd sy'n ein mynyddoedd
Heb un sŵn, heb lw na bloedd.

O ro'r ffin yr hwyr a ffodd, – i Selwyn
Nos aelwyd a giliodd;
Clywsom pam y bras gamodd
Drwy'r hafwynt ar hynt ei rodd.

Bellach draw bydd mab awen, – mydryddwr
'Madroddus a thrylen;
Oed awr braint yn nod ar bren
Wrth ei ddôr, gwyrth o dderwen.

Hyd drothwy gwlad doreithiog – y rhodia
Heddiw'n brydydd enwog,
I aelwyd gain, clwyd y gog,
O rynnau Blaencwmbrwynog.

O frwyn ar dwyn daeth hwn i rodianna
Yn fud astud, lle mae'r ha'n lluesta,
A'r gornant segur yn troelli pura
Rhawd ei hawdd awen ar y dydd hwya.
Yntau'r hedydd hirddydd ha – mewn gwynfyd
O'i hynt awr hawddfyd ger Nant yr Wyddfa

Y Prifardd Dafydd Jones, Ffair Rhos.

Hwyl,
Selwyn

## Y 'STEDDFOD FAWR

Yr wythnos diwethaf symudodd Swyddfa Eisteddfod 1979 i gartref newydd yng Nghaernarfon — cartref a geidw nes cynnal yr Eisteddfod.

Bu'r Swyddfa yn hen ysgol Twtil gynt, ond gan fod honno'n cael ei chwalu i'r llawr fel rhan o waith adeiladu ffordd osgoi fewnol Caernarfon bu'n rhaid symud.

Ond nid yw'r Swyddfa newydd ond tafliad carreg o'r ysgol — yn wir fe'i cartrefir mewn adeiladau symudol a ddefnyddiwyd ar gyfer dosbarthiadau babanod ysgol Twtil.

Mae'r fynedfa yn y stryd y tu cefn i Adeiladau'r Goron ac o dan safle'r hen ysgol.

Yr un yw rhif y teleffon o hyd, Caernarfon 5215.

Beiros, teis, crysau T a mygiau — y gobaith yw y daw'r gymysgedd ryfeddol hon o nwyddau â rhai punnoedd i goffrau Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon, 1979.

Ar werth yn awr y mae deng mil o feiros gydag enw'r Eisteddfod arnynt ac hefyd gant o fygiau gydag arwydd yr Eisteddfod arnynt wedi eu gwneud gan y cwmni cydweithredol lleol, Antur Aelhaearn.

Pris y beiros yw deg ceiniog yr un a'r mygiau £1.25, a dywedodd swyddog o Swyddfa'r Eisteddfod y gobeithia y bydd y pwyllgorau lleol yn mynnu rhai ohonynt i'w gwerthu yn y pentrefi.

"Cânt hwy brynu'r beiros am bum ceiniog a'r mygiau am 75c ac wedyn, o'u gwerthu am y pris llawn, rhoi'r gweddill yn eu cronfa leol," meddai.

Nid yw'r teis a'r crysau wedi cyrraedd y Swyddfa hyd yn hyn ond gobeithir y byddant ar gael erbyn y Cyhoeddi ar Orffennaf 1 neu fan bellaf erbyn Eisteddfod Caerdydd, lle bydd gan y Steddfod babell.

Yr oedd teis, gyda symbol yr Eisteddfod arnynt, ar werth yn Wrecsam y llynedd a gwerthodd y rheini yn arbennig o dda.

# Pan oedd bri ar gorau

*Dangoswyd eisoes luniau o sawl côr meibion yn y cylch yn ystod hanner cyntaf y ganrif hon. Dyma i chwi lun o gôr cymysg a chôr merched y tro hwn. Yn wir, daeth y fro yma yn adnabyddus drwy Gymru benbaladr am ei doniau cerddorol. Efallai yn y dyfodol y cawn hanesion rhai o'r corau yma yn yr* **Eco.**



*Côr Cymysg o Lanrug a'r Waunfawr. Yr arweinydd oedd H.J. Roberts (Harry Bach Llanrug). Tynnwyd y llun tua throad y ganrif. Y llun trwy garedigrwydd Henry Roberts, Bethesda (mab yr arweinydd).*



*Côr Merched o Lanberis. "The Snowdon Ladies Choir" fel y'u gelwid. Tynnwyd y llun yn y flwyddyn 1902. Yr arweinydd oedd Mr. Wilson Jones a'r ysgrifenrrydd oedd Mr. R.E. Parry.*

*I'r rhai hyn ohonoch mae yna wynebau cyfarwydd megis Mrs. Williams, Pant y Cafn yr ail o'r chwith yn y rhes ôl. Y bedwerydd o'r chwith yn y rhes ôl yw Mrs. John Morris Roberts (nain Arwel, Hogia'r Wyddfa) a'r bumed yw Mrs. Williams, Plas Coch (mam Mr. Alun Williams, Plas Coch).*

*Y 5ed o'r chwith yn yr ail res yw Mrs. Owen Jonah Owen a'r chweched yw Mrs. Rowlant Roberts. Rhywle yn y 3edd res mae Mrs. Ben Thomas. Mae rhai ohonoch yn adnabod mwy mae'n bur debyg. Y llun gan Gwyneth Arfon, Morfa Nefyn).*


AM DRIP CYFFORDDUS, DIOGEL A RHAD
I BLE BYNNAG Y BO ...............

Eric Morris



Bwsiau Arfon
LLANRUG

FFÔN
WAUNFAWR 254

## TLWS CHWARAE TEG

*18 Heol y Bedyddwyr,*
*Penygroes.*

*Annwyl Olygydd,*

*Yn eich rhifyn olaf o* **Eco'r Wyddfa**, *yn adran Chwaraeon, awgrymwyd fod siawns dda gan dîm pêl-droed Llanrug i ennill y Tlws Chwarae Teg, a gyflwynir i'r tîm fu yn chwarae'r pêl-droed tecaf a glanaf yn ystod y tymor sydd newydd orffen. Wel, erbyn hyn, gan mai fi sydd yn gyfrifol am gasglu'r marciau at ei gilydd, gallaf eich sicrhau mai Llanrug yw enillwyr y Tlws unwaith eto (buddugol yn 1975 hefyd).*

*Cynigir y Tlws i dimau yng Nghynghrair Caernarfon a'r Cylch a Chynghrair Môn. Felly, Llanrug yw pencampwyr chwarae tecaf Môn ac Arfon, yn nhyb y reffarîs a reolodd y gemau y bu'r timau yn chwarae ynddynt.*

*Fel un o'r reffarîs yn y gemau hyn (gan gynnwys y gêm fawr yn Llanberis), gallaf dystio i chwarae glân a theg Llanrug.*

*Carwn gywiro un camgymeriad bach – cyflwynir y Tlws gan Rhanbarth y Gorllewin o Gymdeithas Reffarîs Gogledd Cymru, ac nid gan y Gynghrair fel yr awgrymwyd yn yr* **Eco.** *(Chware teg i'r reffarîs weithiau!)*

*Llongyfarchiadau gwresog i Lanrug.*

*Yn gywir iawn,*
*W. Vernon Owen.*

## MABOLGAMPAU ERYRI

Cynhaliwyd Mabolgampau Merlod yn Llanberis dydd Sadwrn 3ydd o Fehefin, o dan nawdd Cymdeithas Amaethyddol, Gogledd Cymru, a gwerthfawrogwyd yr ymdrech newydd yma gan roi cyfle i blant yr ardal gystadlu yn y math yma o chwaraeon. Daeth cystadleuwyr eraill o Ben Llŷn a Môn i ymuno yn y cystadlu brwd a'r miri hwyliog, a da oedd gweld llawer o'r gwobrau yn mynd i gartrefi ardal yr Eco.

Cafwyd arddangosfa gampus o geffylau gwedd gan Mr. W.H. Griffith, Brynrefail a bu Mrs. Pam Lomas, Fferm Y Wern, Bethel yn brysur iawn yn diddori'r plant gyda thripiau trol a cheffyl.

Beirniad y marchogaeth oedd Mrs. Beryl Humphreys Pwllheli, a bu Mrs. Doris Pierce, Fferm Glanrafon Pontrug a Mrs. Wroe, y Waunfawr, yn beirniadu'r cystadleuthau oen a myn llywaeth. Cyflwynwyd y cwpanau gan Mrs. Eric Jones, Kent, Pontrug.

Diolch hefyd i Gymdeithas Ambiwlans, St. John's, Llanberis am fod yn bresennol ar y cae.

Dyma'r enwau lleol a ddaeth i blith y gwobrau: Tracy Machin, ac Andrea Lowe (4 gwobr) o'r Fachwen; Richard Long, Carol Ann Jones (4 gwobr), Jane Roberts (3 gwobr gan gynnwys cwpan); Caren Simmons (cwpan); Jane Nicholas; Julie Roberts (4 gwobr) i gyd o Lanrug; Siân Thomas (3 gwobr) a Fiona Johnson o'r Waunfawr.

# YMGYRCH Y LLWCH

### HAROLD WALKER I GYFARFOD PWYLLGOR LLWCH GWYNEDD

**Mewn cyfarfod o Gyd-bwyllgor Llwch Gwynedd, nos Iau, Mehefin 22, yn Festri Gorffwysfa, Llanberis, penderfynwyd ymgyrchu trwy bentref Llanberis brynhawn Gwener, Gorffennaf 7, pryd y bydd Mr. Harold Walker (Gweinidog Gwladol dros Gyflogaeth) mewn Cynhadledd o Gyngres Undebau Llafur Cymru yng Ngwesty Fictoria.**

Dyma gyfle i brotestio, a dangos cryfder y teimlad sydd yng Ngwynedd am gyfiawnder i chwarelwyr a'u teuluoedd. Bydd cyfle, hefyd, i Mr. Walker siarad a'r ymgyrchwyr.

Bydd cefnogwyr yn cyfarfod yng Nghanolfan Llanberis am 1.00 p.m. ar y diwrnod, a bydd y maes parcio wedi'i neilltuo i'r pwrpas. Wedyn bydd yr ymgyrchwyr yn cerdded gyda phosteri a baneri i fyny i'r Fictoria, gan ymgynnull y tu allan i'r gwesty.

Bydd panel, yn cynnwys 2 gynrychiolydd o bob un o'r wyth pwyllgor llwch lleol yng Ngwynedd yn cael cyfarfod arbennig gyda Harold Walker yn Swyddfeydd y Cyngor Sir yng Nghaernarfon ar fore Gwener, Gorffennaf 7.

Yn y cyfarfod ceir adroddiad gan Harold Walker, ac wedyn bydd y cynrychiolwyr yn cael cyfle i ddweud gair a chyflwyno deiseb gydag enwau 25,000 o bobl arni.

Teimlad y cyd-bwyllgor yw y byddai rali yn Llanberis ar ôl y cyfarfod yn rhoi mwy o bwyslais ac ystyr i'w cyfarfod yn y bore, ac y byddai gan Harold Walker fwy o amser yn y pnawn.

Dymuna Mr. Gwynfor Williams, yr ysgrifennydd, ddiolch ar ran y cyd-bwyllgor, i bawb ym mro'r *Eco* fu mor ddiwyd yn casglu'r enwau ar y ddeiseb. Pwysleisia Mr. Williams mai grŵp hollol annibynnol, di-blaid, yw'r pwyllgor, sydd wedi'i ffurfio i roi pwysau ar y sefydliad i gael chwarae teg i'r chwarelwyr.


DALIER SYLW ! !

**Arddangosfa**

(Cynnyrch diddorol o bob math)
Hen & Newydd

GORFF 18 – 22
Mawrth - Sadwrn 2.00-8.00

CANOLFAN
CYMDEITHASOL
DINORWIG

Mynediad - 10c
(Yr elw at Gronfa Leol
Eisteddfod Genedlaethol
Caernarfon 1979)

CROESO CYNNES I BAWB


# LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Valerie Parry, Glan y Don ar ddathlu ei phen-blwydd yn 18 oed ar Fehefin 19.

BEDYDDIO – Yng Nghapel Coch, dydd Sul Mehefin 18, bedyddiwyd Gavin, mab bychan Mr. a Mrs. Dennis Carr, 86 Maes Padarn, a Clare, merch fach Mr. a Mrs. Bryn Morris, Glanffynnon, Llanrug, gan y Parch. Huw John Hughes.

Yn bresennol yn y gwasanaeth oedd Mr. Richard Jones, tad Mrs. Carr a Mrs. Morris, sydd wedi dod ar ei wyliau i'r ardal hon o'r America gyda'i briod.

MARW – Estynnir cydymdeimlad dwys iawn â'r teuluoedd a gyfarfu â phrofedigaethau yn yr ardal yn ystod y mis.

Ar Mehefin 6 bu farw Mr. W.G. Pritchard, mab y diweddar Mrs. a Mrs. Pritchard, Central Garage yn 66 oed. Bu farw yng nghartref ei chwaer Mrs. Myfanwy Jones, Llys Eryri.

Ar y 18 o'r mis bu farw Mr. G. Reynolds yn yr ysbyty yng Nghaernarfon, ar ol cystudd hir iawn.

GRADDIO – Llongyfarchion i Mary Wyn, Coed Mawr, ar ennill gradd ym Mhrifysgol Aberystwyth.

YN GWELLA – Da iawn yw deall fod y rhai a ganlyn wedi dychwelyd o'r ysbyty, ac wedi mendio'n llwyr.
Set, Miss Margaret Rees Jones, London House, Mrs. Brenda Roberts, Stryd Goodman, Mrs. Leyland, Stryd Goodman a Rhiannon Pritchard, Madryn.

DIOLCH – Dymuna Mr. Huxley Thomas, ddiolch yn fawr iawn i ardal Llanberis, am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniodd ar ei benblwydd yn 80 oed yn ddiweddar.

CÔR GENETHOD LLANBERIS –
Llongyfarchiadau mawr iawn i Gôr Genethod Llanberis ar eu llwyddiant yn Eisteddfod Llanrwst. Enillasant y wobr gyntaf a chwpan arian. Arweinydd y Côr yw Nia Bryan Jones, a'r cyfeilydd oedd Annette Roberts.

Bydd y llwyddiant yma yn symbyliad iddynt ar gyfer y Genedlaethol. Pob lwc genod!

CYMANFA BREGETHU – Ar yr ail Sul o'r mis cynhaliwyd Cymanfa Bregethu Flynyddol Nant Padarn. Y pregethwyr gwadd oedd, Y Parchn. Denzil James, Rhydaman a Bryn Roberts, Wrecsam.

CLWB YR HENOED – Nos Fercher diwethaf cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol Clwb yr Henoed yn y Ganolfan dan lywyddiaeth y Canon Alun Jones. Cafwyd adroddiad drylwyr iawn am weithgareddau'r flwyddyn gan yr ysgrifenyddes Miss Ann Jones. Hefyd darllenwyd y fantolen gan y trysorydd Mrs. Gwyneth Clarke. Diolchwyd i'r swyddogion ac i'r pwyllgor am eu gweithgarwch diffuant ar hyd y flwyddyn, gan y llywydd. Diolchwyd hefyd i Mr. E. Jones, Y Banc am archwilio'r llyfrau, a threfnu'r fantolen.

TRIP – Dydd Sadwrn, Mehefin 24, aeth aelodau o Glwb yr Henoed am eu trip blynyddol. Treuliwyd peth amser ym Mhorthmadog, pryd ardderchog yng Ngwesty Plas Gwyn, ac yna ymlaen i Gricieth. Mwynhaodd pawb ei hun yn ardderchog.

CLWB ERYRI – Eleni trefnwyd Trip Clwb Eryri gan Mr. T.W. Williams. a mwynhawyd yr ymweliad â phroject Dinorwig. Swyddogion newydd y clwb yw: Cadeirydd:: Mr. W.A. Jones, Is.-gadeirydd: Mr. R.G. Davies; Trysorydd: Mr. I. Ellis Jones; Ysgrifennydd: Mr. Rol Williams, Recordydd: Mr. Stanley Owen.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynrychiolwyd Sefydliad y Merched yn yr Albert Hall, Llundain yn ddiweddar gan Mrs. Ella Hondle, Afallon, Stryd Newton.

GWYLIAU YN YR AMERICA – Yn ystod y mis aeth Mr. a Mrs. J. Edwards, Stryd Bethesda i Chicago i dreulio gwyliau gyda'u merch Sheila, a'i theulu.

MARW – Cydymdeimlir â Mrs. C.M. Hughes, Bryn Mel, ar farwolaeth sydyn ei brawd Mr. Richard Pritchard, nos Lun, Mehefin 19 yn 75 mlwydd oed.

BRYSIWCH WELLA – Mrs. Annie L. Jones, 10 Pen-y-Graig.

YMDDANGOSODD – Mr. Ted Thomas ar 'Heddiw' nos Fercher Mehefin 14. Bu mewn cynhadledd i blant dan anfantais yn y Bala. Nid yw iechyd Mr. Thomas wedi bod yn dda yn ddiweddar. Brysiwch wella.

CLWB METHEDIG ERYRI – Cafodd y Clwb noson goffi lwyddiannus nos Wener, Mehefin 16. Agorwyd y noson gan Mr. Ieuan Ellis Jones, M.P.S. a chafwyd rhodd ganddo.

CYDYMDEIMLAD – Bu farw Mrs. Mary Florence Owen, 8 Maes Derlwyn, ddydd Gwener, Mehefin 23. Ein cydymdeimlad dwysaf â'r teulu.

CROESO I'R ARDAL – i Mr. a Mrs. Pierce a'r teulu sydd wedi dod i fyw i 'Dolberis'.


**AR WERTH**

**Beic sports Raleigh ar gyfer dyn. Yn newydd. Ffôn:Smith Waunfawr 272.**



**10%** oddi ar Bapur Wal a Phaent Leyland & Jellipex yn

**E.WILSON HUGHES**
***84 Stryd Fawr***
***LLANBERIS***

*Ffôn: Llanberis 491*

MELYSION A BACO AR WERTH HEFYD

# Eich Hawliau

gan Berwyn Hughes

## 2: BARGEN DEG AR GREDYD

**MAE credyd yn dod yn rhan bwysig iawn o'n bywyd bob dydd, a chyn i'r Ddeddf Credyd Prynwr ddod i rym 'roedd ansicrwydd mawr ynglŷn â'r safbwynt cyfreithiol. Tra byddai rhai cynlluniau yn gwarchod y prynwr, byddai rhai eraill yn ben-agored iawn.**

Mae'r Ddeddf yn sicrhau bod y gwerthwr a'r prynwr yn cael chwarae teg, ac erbyn hyn mae rheolau ynglŷn â chredyd wedi'u safoni, yn ogystal â gorfodaeth ar drwyddedau cwmnïau credyd. Nid yw'r ddeddf yn gweithredu'n llawn ar hyn o bryd — mae'r isod mewn grym ers Hydref 1af, 1977.

Mae'n ofynnol i bob cwmni credyd ddal trwydded, ac mae'n drosedd i weithredu heb un. Mae gwahanol fathau o drwydded, ac mae'r rhain yn berthnasol i'r maes y gweithredir y cwmni ynddo.

Nid yw'n gyfreithlon, yn ôl y ddeddf, i archwilio busnes newydd trwy weithredu ar y stryd neu alw yn eich cartref heb drwydded arbennig. Ni allent, o dan unrhyw amgylchiadau, alw heb wahoddiad i gynnig benthyca arian neu wasanaethau tebyg.

Mae'n drosedd i wasgaru cardiau credyd os nad archebir un. Mae hefyd yn anghyfreithlon i yrru dogfennau i bobl dan 18 oed, yn eu gwahodd i fenthyca arian neu fanteisio ar gyfleusterau credyd.

### CYD-GYFRIFOLDEB

Pan brynir nwyddau neu wasanaethau ar gredyd, nid oddi wrth y gwerthwr y daw'r arian bob amser. Yn aml, mae'r gwerthwr yn trefnu iddo ddod oddi wrth dŷ cyllid, neu derbynnir gerdyn credyd. Os felly, mae rhoddwr y credyd yn gyd-gyfrifol am unrhyw doriad yn y cytundeb. Mae hyn yn berthnasol i drefniadau credyd a wnaethpwyd ar neu ar ôl Gorffennaf 1af, 1977.

### CREDYD EITHAFOL

Petai prynwr yn tybio fod termau cytundeb yn eithafol, mae yna 'nawr gyfle i roi hyn gerbron llys. Os cytuna'r llys a'r gŵyn, gall fod yn fanteisiol mewn amryw ffordd. Er enghraifft, gall orchymyn y benthyciwr i dalu taliadau llog afresymol yn ol. Dim ond y llys all benderfynu beth sy'n "eithafol".

### CYFEIRIADAU CREDYD

Ambell dro, gwrthodir credyd i gwsmer oherwydd adroddiadau anffafriol gan asiantau adroddiad credyd (credit reference agencies). Yn awr mae gan y cwsmer yr hawl i wybod enw a chyfeiriad unrhyw asiant o'r fath a gyflawnodd yr adroddiad. Gall y cwsmer hefyd gael copi o'r wybodaeth sydd gan yr asiant amdano a chywiro unrhyw gamgymeriad.

### TALIADAU I FROCER

Ni all brocer godi mwy na phunt ar gwsmer pan ofynnir iddo drefnu mortgais neu unrhyw fenthyciad arall, os nad arwyddir cytundeb credyd o fewn chwe mis ar ôl cyflwyno'r cwsmer i ffynhonnell credyd. Os talwyd mwy na phunt iddo, mae gan y cwsmer hawl i'r gweddill yn ôl.

Yn y rhifyn nesaf: Moduron.


## CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

- Mae'r Gymdeithas hon, a sefydlwyd yn 1971 bellach wedi darparu **20 o gartrefi** i deuluoedd yng Ngwynedd.
- Cyn diwedd 1978, bydd **7 cartref arall** wedi eu cwblhau, gan gwynnwys 3 yn Nantlle, lle mae bygythiad i gau'r ysgol.
- **Cyflogir 17 o bobl** ar hyn o bryd gan y Gymdeithas
- **Telir llog o 6%** ar bob arian a fuddsoddir yn y Gymdeithas
- Gallwch hefyd fuddsoddi'n ddi-log ac y mae croeso wrth gwrs i **roddion**
- Mae llawer o rieni wedi agor cyfrif yn y Gymdeithas **yn enw'u plant** — fel sicrwydd ar gyfer y dyfodol
- Anfonwch am fanylion at y Trefnydd: Dafydd Iwan, Cymdeithas Tai Gwynedd, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd. (Ffôn: Penygroes 730)


# GLAW YN RHOI OND YMLAEN Â



*Siomedig fu'r tywydd i Garnifal Llanrug ond dod a chystadlu a wnaeth y trigolion doed a ddêl. Cafwyd nosweithiau rhagorol yn ystod yr wythnos. Cynhaliwyd y carnifal yn yr ysgol.*

# GIAMOCS WEUN



***Mae Gemau Giamocs wedi dod yn beth poblogaidd iawn yn y fro yma.*** *Dyma gip ar bobl Waunfawr yn cynnal eu giamocs y flwyddyn diwethaf.*

## GEMAU GIAMOCS

NOS FERCHER
12 GORFFENNAF 1978
7.00 p.m.

Timau yn cystadlu o bentrefi

WAUNFAWR DEINIOLEN
PENISARWAUN LLANRUG

Gwyliwch y poster am fanylion

Trefnir gan Bwyllgor Eisteddfod Waunfawr

# DAMPAR AR BETHAU CHARNIFAL LLANRUG




*Dim ffiers o beryg'. Ta i ddim i'r cylch !*



*" 'Sgin i ddim mynadd hefo'r busnas priodi 'ma. Welodd rhywun 'y ngŵr i?"*


## YN EISIAU
## Tir Adeiladu

Gyda Chaniatâd Cynllunio
neu dir yn debygol o gael caniatâd.
I fyny at 4 erw yng Ngwynedd neu Clwyd.

CYSYLLTWCH Â: CYMRODYR HIRAETHOG,
LLYS HIRAETHOG,
LLAIN Y CAPELI,
DINBYCH.
*(Ffôn: Dinbych 3853)*


## OS AM LOND BOL

*Annwyl Syr,*

*Yn dilyn brwdfrydedd y cyhoedd ynglŷn â'r llyfr* Tafarnau Cymru *a gyhoeddir gan Wasg y Lolfa yn fuan, penderfynodd y wasg fynd ati i baratoi llyfr arall yn yr un gyfres, sef* Tai Bwyta Cymru. *Gobeithir cynnwys pob mathau o dai bwyta yn y llyfr, a bydd adroddiad personol ar bob lle a restrir.*

*Buaswn yn ddiolchgar iawn pe bai rhai o'ch darllenwyr yn anfon gair ataf am eu hoff dai bwyta (gan gynnwys siopau sglodion, tafarnau llaeth, gwestai, bistros &c) er mwyn fy helpu i baratoi'r llyfr. Yn naturiol, mae'n amhosib i un person fod â gwybodaeth fanwl am gyfleusterau pob ardal yng Nghymru. Byddai'n ddiddorol gwybod faint o Gymraeg a glywir yn y tai bwyta o'ch dewis.*

*Dim ond anfon gair ataf, ac mi anfonaf ffurflen bwrpasol i'w llenwi. Edrychaf ymlaen yn fawr at ymateb da yn ystod y tri mis nesaf.*

*Yn gywir iawn,*
*Eluned Rowlands, Dôl Bebin,*
*Rhydypennau, Aberystwyth.*

## GWERTHU 500 MEWN MIS

**Fis yn ôl y cyhoeddwyd 'Dyddiadur Dyn Dwad' gan Gyhoeddiadau Mei, Y Dolydd, Y Groeslon, Caernrfon, ac ers hynny gwerthwyd 500 o gopïau.**

Casgliad o straeon byrion yw'r llyfr gan Goronwy Jones, brodor o Gaernarfon, nawr yn byw yng Nghaerdydd. Sonnir ynddo am fywyd tafarnau a chlybiau Caerdydd, ac achoswyd peth trafferth dro'n ôl pan gyhoeddwyd rhai ohonynt ym mhapur bro Caerdydd 'Y Dinesydd' gan achosi i'r golygydd ymddiswyddo.

Cyhuddwyd yr erthyglau o ddefnyddio iaith 'anweddus' ac o bortreadu bywyd 'salaf'(!) Caerdydd.

Ond mae'n amlwg mai dyma'r math o lyfr sydd ei angen yng Nghymru heddiw, gan fod gwerthu 500 o unrhyw lyfr Cymraeg yn beth anghyffredin, ond mae gwerthu 500 mewn mis yn eithriadol.

Bu gwerthu da arno yng Nghaernarfon (gan iddo gael ei ysgrifennu mewn iaith Cofi) ac yng Nghaerdydd, a dywedodd rhai perchnogion siopau llyfrau fod nifer o rai na arferent brynu llyfrau Cymraeg wedi ei brynu.

### NEWYDDION LLANBERIS

LLONGYFARCHIADAU i Mr. Tony Pepper, Stryd Newton ar ennill gradd (anrhydedd) mewn Pensaerniaeth.

UWCH-ADRAN YR URDD — Casglodd yr Adran dros £40 ar daith gerdded. Aeth yr arian tua'r Ymgyrch Lwch. 'Roedd y plant yng ngofal Mr. Bert Parry. Cyflwynodd yr Adran Feibl i eglwys Gorffwysfa am gae: defnyddio'r festri yn ystod y gaeaf.

### DIOLCH AM GYDYMDEIMLAD

Dymuna Mrs. Mary Vaughan Jones, Hafod y Coed, Waunfawr ddiolch am y caredigrwydd a'r cydymdeimlad a gafodd gan y lluoedd a ddaeth i'w chartref ac am y cannoedd o lythyrau a dderbyniodd — llawer ohonynt heb gyfeiriad, fel na ellir eu hateb.


## RECORDIAU NEWYDD



**TREBOR EDWARDS·**
**"Cân y Bugail"**
**(Sain 1113D)**

Trydedd L.P. y tenor gwych
o Fetws Gwerful Goch.

**TECWYN IFAN·**
**"Dôf yn ôl" (Sain 1119M)**

Casgliad newydd y bu disgwyl hir amdano
yn dilyn llwyddiant "Y Dref Wen".

**BECA·**
"Mynd i Arall Fyd" (Sain 1116D) Hyfrydwch Pur!

**CLWT Y DDAWNS 2·**
(Sain 1098D)-ar gyfer eich dawns

**YN EICH SIOP LEOL YN AWR!**

**MANYLION ODDI WRTH:-**

SAIN (RECORDIAU) CYF.,
FFORDD LLANLLYFNI, PENYGROES,
CAERNARFON, GWYNEDD.
FFÔN: PENYGROES 732.

sain

# DEINIOLEN

UNDEB BEDYDDWYR CYMRU – Ar wahoddiad Eglwysi Penuel (Bangor), Libanus (Clwt-y-bont) a Sardis (Dinorwig), cynhelir Cynhadledd Undeb Bedyddwyr Cymru am 1978 yn y fro, gyda'r rhelyw o'r cyfarfodydd ym Mangor a'r cynrychiolwyr yn lletya yn y Coleg Normal.

Ers rhai wythnosau bu cydweithio brwd rhwng y tair Eglwys dan arweiniad eu Gweinidog, y Parch. Ifor Williams, yn perffeithio'r trefniadau ar gyfer rhagor na 200 o gynrychiolwyr a ddisgwylir o bob cwr o Gymru.

Bydd aelodau'r tair Eglwys yn cyd-gymuno yn Libanus mewn oedfa arbennig fore Sul, Gorffennaf 2, 1978, ac ar y bore Iau canlynol, diwrnod olaf y Gynhadledd, bydd Cyfarfod Pregethu yn Sardis.

SEFYDLIAD Y MERCHED – Cynhaliwyd cyfarfod o'r gangen leol ar ddydd Llun cyntaf y mis. Mrs. Eirlys Williams oedd yn y gadair, a darllenodd y llythyr misol, Y siaradwr gwadd oedd Ditectif Selwyn Jones. Dangosodd ffilmiau ar atal troseddau a diogelu eiddo. 'Roedd pawb wedi mwynhau'r noson. Rhoddwyd y diolchiadau gan Mrs. Eileen Williams, Llanrug. Gwestwragedd y te oedd Miss Betty Williams, View Terrace a Mrs. Maureen Williams, 12 Ffordd Deiniol. Bydd gwibdaith ym mis Medi i'r Arcadia, Llandudno i weld sioe, a bydd cyw iâr a 'sglodion ar gael cyn y sioe. Rhoddwch eich enwau i Mrs. Marian Williams, 12 Ffordd Deiniol, cyn Gorffennaf 14, os ydych yn dymuno mynd.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y gangen leol yn ddiweddar, ac etholwyd y swyddogion canlynol:
Llywydd: Mrs. Dilys Hughes; Is-lywydd: Miss Kathleen Jones; Trysorydd: Miss Nansi Owen; Ysgrifennydd: Mrs. Helen Sutherland; Gohebydd y Wasg: Mrs. Medwen Griffith; Dosbarthwr 'Y Wawr': Mrs. Betty Roberts; Trefnydd Teithiau: Mrs. Valmai Williams; Trefnwyr y Te: Mrs. Margaret Thomas a Mrs. Gladys Jones.

Etholwyd Mrs. Gladys Evans a Mrs. Marian Wyn Williams yn aelodau o bwyllgor y gangen ynghyd â'r swyddogion uchod.

Cafwyd Adroddiad Ariannol hynod o foddhaol gan Mrs. Marian Wyn Williams, ac Adroddiad gan Miss Nansi Owen o'r Gynhadledd yn Aberystwyth Gwesteion y te oedd Mrs. Maggie Jones Mrs. M. Evans, Mrs. M. Thomas a Mrs. G. Lewis.

Enillydd y raffl oedd Miss Kathleen Jones. Nos Wener Mehefin 23 mae'r gangen yn ymweld a'r Amgueddfa Blentyndod, Porthaethwy, ac yn galw wedyn yng Ngwesty Victoria, Llanberis

GWOBR GYNTAF – Yn adran Defaid Mynydd Cymreig, yn Sioe Amaethyddol Dyffryn Ogwen; yn y dobsarth i Hyrddod 3 oed a throsodd, cafodd hwrdd i Hugh Price Morris, Rhianfa, Clwt-y-bont y wobr gyntaf, ac hefyd cafodd ail yn y gystadleuaeth am y 'Supreme Championship'.

DISGWYLFA M.C. – Cynhaliwyd cyfarfod o Gymdeithas y chwiorydd nos Iau, Mehefin 1af. Llywyddwyd gan Mrs. H. Rees Owen. Cymerwyd y rhannau dechreuol gan Miss Kathleen Jones. Estynnwyd croeso yn ôl i Mrs. Muriel Evans ar ol ei gwaeledd, a hefyd i Mrs. John Hughes, ar ôl colli ei brawd. Cafwyd peth o hanes ei thaith i Holland gan Mrs. M.A. Thomas. Rhoddwyd y te gan Mrs. Willie Hughes 7 Tai Caradog a Miss Ann Jones, Green Terrace. Diolchwyd gan Mrs. O.R. Jones, 10 Tai Caradog. Bydd y cyfarfod nesaf nos Iau Gorffennaf 6.

SEFYDLU GWEINIDOG – Gorffennaf 1af bydd Mr. Trefor Lewis yn dechrau fel Gweinidog Gofalaeth Cefn-y-Waun a Disgwylfa. Brodor o Gaergybi yw Mr. Lewis a hon yw ei ofalaeth gyntaf. Mae Mr. Lewis yn briod gyda dau fachgen a byddant yn byw yn Llys Myfyr. Croesewir y teulu yn gynnes iawn i'r ardal. Cynhelir cyfarfod Sefydlu Mr. Lewis yng Nghapel Cefn-y-Waun nos Fercher, Gorffennaf 19 am 7 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

Cynhelir gwasanaeth undebol yng Nghefn-y-Waun Sul Awst 6 pryd y pregethir gan y Parch. D.R. Pritchard, Bow Street.

Y SEINDORF – Llongyfarchiadau i'r seindorf am ddod yn ail mewn cystadleuaeth ym Mhontins ar Fai 28, yr oedd naw band yn cystadlu, bandiau dosbarth B a C ledled Cymru oeddynt. Y wobr oedd £100 a thystysgrif. Dyma ganlyniad y gystadleuaeth:
1: Point of Ayr = 185; 2: Deiniolen = 184; 3: Bae Colwyn = 183.

Bydd y seindorf yn mynd i'r Almaen ar y 13eg hyd 22ain o Hydref. Bydd taith gerdded yn cael ei chynnal ar y 19 o Awst, os oes rhywun yn dymuno cymryd rhan a fyddent gystal â rhoi eu henwau i:
Mr. D. Williams, Tŷ Capel Cefnywaen, a Mr. I.B. Roberts, Tŷ'r Ysgol, Dinorwig.


Os hoffech brynu unrhyw lun a ymddangosodd yn yr Eco, cysylltwch â

**B. SMITH**
**PANT HYFRYD**
**CEUNANT**
**Waunfawr 272**


## AI YSGOL *BRO* GWAUN GYNFI?

**FEL UN wedi ei fagu mewn bro chwarelyddol fel hon – bro lle bu dipyn o fynd ar 'las-enw' – cefais fy nysgu yn gynnar iawn fel plentyn i roi'r enw 'iawn' ar bawb. Yr enw iawn hwnnw oedd enw bedydd. Ymgais oedd hyn ar ran fy rhieni i'n dysgu ni fel plant i werthfawrogi a pharchu enw pawb. Gŵyr pob rhiant ar amser genedigaeth eu plant pa mor bwysig yw dewis enw addas.**

Gymaint hefyd yw pwysigrwydd enw pentref. Cofiaf yn dda tua dwy flynedd yn ôl pan ar ymweliad â Swyddfa Gynllunio y Cyngor Sir yng Nghaernarfon a synnu o ddeall ar eu sgwrs pa mor amharod oeddynt i gydnabod gwerth enw pentref. Gofyn oeddwn am arwydd ffordd yn dynodi enw Dinorwig gan fod cryn ddryswch yn codi o bryd i'w gilydd ynglŷn â lleoliad y pentref. Fel y gellid tybio hyd yma nid oes sôn am yr arwydd.

Eto, tybed faint ohonom ni, o bryd i'w gilydd, sydd wedi ymateb i gwestiwn "Lle mae eich cartref?" tra ar wyliau neu ar ymweliad ag ardal arall trwy ddweud "Wel, nid yn bell o dref Caernarfon neu Fangor" heb fanylu o gwbl am enw ein pentref ein hunain. Ymateb fel hyn gan feddwl na fuasai enw'r pentref yn cyfleu llawer i eraill. Am rhyw rheswm neu'i gilydd amharod iawn ydym i fynd i'r drafferth – os trafferth – i egluro'n fanwl am leoliad ac enw ein pentref. Yn sicr mae'r arferiad yma wedi bod o anfantais mawr mewn sawl cyfeiriad i nifer o'n pentrefi gwledig. Un canlyniad anffodus yw bod enwau ein pentrefi yn ddieithr i nifer o'n cyd- Gymry.

Ers blynyddoedd bellach peidiodd Ysgol Gynradd Dinorwig â gweithredu fel ysgol ddyddiol – a hynny ers pan gauwyd yr ysgol yn 1970. Erbyn hyn cludir y plant yn ddyddiol i Ysgol Gwaun Gynfi, Deiniolen – taith o ddwy filltir. Nid oes amheuaeth fod y plant wedi ymdoddi yn llwyddiannus i amgylchfyd eu hysgol newydd, a da o beth yw gweld plant Dinorwig yn cyfrannu at lwyddiant dysg a chân yr ysgol honno dros y blynyddoedd diwethaf.

Eto, o ddweud hyn, ni ellir cuddio'r ffaith fod cau ysgol bentref yn ergyd drom i gymdeithas y pentref hwnnw. Yn naturiol, gyda'r blynyddoedd mae hyn wedi dod yn fwy amlwg i ni fel pentrefwyr Dinorwig. Yn ddiweddar sylweddolais un ffaith hynod o drist, sef fod yr enw Dinorwig yn prysur ddiflannu o leferydd ein plant pan ystirir eu haddysg. Pan ofynnir iddynt am eu hysgol nid oes cyfeiriad o gwbl am Ddinorwig, Fachwen, a Chlwt-y-bont – yn hytrach y cyfan yw Deiniolen. Yr ofn mwyaf yw ein bod yn magu plant sydd yn cysylltu eu haddysg, a'r pethau gorau sydd yn gysylltiedig â'r addysg honno gyda phentref arall gan anwybyddu eu pentref eu hunain. Fe ellir dadlau fod hyn yn anochel gan fod lleoliad yr ysgol yn Neiniolen. Eto i gyd ni ddylai hyn fod yn rhwystr inni greu sefyllfa lle y gall teuluoedd ifainc fagu plant yn Ninorwig gan anfon eu plant i Ysgol Gwaun Gynfi, heb aberthu ffyddlondeb y plant at eu pentref eu hunain. Ar hyn o bryd 'rydym yn magu cenhedlaeth o blant sydd yn prysuro anghofio eu gwreiddyn cyntaf, eu gwreiddyn pwysicaf.

Yn wyneb hyn credaf fod yr amser wedi dod pryd y dylid mynd ati o ddifri i ystyried newid enw presennol yr ysgol i Ysgol BRO Gwaun Gynfi. Byddai newid o'r fath yn meithrin gwerthfawrogiad y plant o'u haddysg a'u pentrefi eu hunain yng nghyd-destun gweddill pentrefi y fro. Ar hyn o bryd cysylltir yr ysgol, a'r holl weithgareddau addysgiadol, diwylliannol a chymdeithasol sydd yn gysylltiedig â hi, gyda phentref Deiniolen lle y dylid cofio fod yr ysgol hon erbyn hyn yn gwasanaethu plant Dinorwig, Fachwen a Chlwt-y-bont.

Coeliwch fi, fe all ychwanegu y gair 'BRO' fod yn gam mawr ymlaen tuag at feithrin yr ymdeimlad o frogarwch ymysg ein plant. *Glyn Thomas, Dinorwig.*


**GWILYM JONES**
**Monumental Works**
**LLANRUG**

**Gwaith Coffäol o bob math**
**mewn llechi a gwenithfaen gan**
**grefftwyr lleol**

**FFÔN**
**CAERNARFON 2898**



**Gwesty Dolbadarn**

Tŷ Rhydd-Feddiant

**Llanberis**

Perchennog Aneuryn Jones

FFÔN : LLANBERIS 277

MAN DELFRYDOL I BARTI PRIODAS
NEU GINIO BLYNYDDOL

Hefyd
CANOLFAN DRECIO
Holwch am ein
telerau rhesymol



## AGOR FFINIAU'R GORFFENNOL
gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

### TWM PATRWM

**RAI blynyddau'n ôl bellach euthum i edrych am y diweddar Thomas Jones, Llanberis i Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon. Gelwid ef yn Twm Patrwm gan bawb. Heb os yr oedd yn un o gymeriadau arbennig Bro Eryri.**

Gofynnais "Sut yda' chi yn teimlo erbyn hyn, Thomas Jones?" Atebodd, "Os gwelwch chi'n dda, pediwch a fy ngalw yn Thomas Jones – Twm Patrwm ydi'r enw fydda'i yn lecio".

"Pam deudwch?"

"O mi egluraf i chwi ar fy union. Fy nhaid oedd y William Patrwm cyntaf. *Pattern maker* yn chwarel Llanberis oedd o – gwneud patrwm olwynion a phethau felly mewr pren wyddoch chi. Cafodd rhai o'r patrymau eu gwerthu. Mae'r lleill yn cael eu cadw yn yr Amgueddfa yn y Chwarel. Un o Borthmadog oedd fy nhad ac yn ddyn duwiol ofnadwy. Codwyd ef yn flaenor gyda'r Bedyddwyr yn Llanberis. Cyn marw fe wnaeth garreg fedd iddo ei hun, gyda llechen las o'r chwarel. Yr oedd wedi cerfio dwy law yn gafael yn ei gilydd ar y llechen. Y mae'r garreg ar ei fedd heddiw ym mynwent Nant Peris ac enw William Jones, Manchester Row, High St., Llanberis arni."

Addewais fynd yno i'w gweld.

Aeth ymlaen wedyn – "Fy nhad oedd yr ail William Patrwm. Bu fy nhad yn gweithio yn y chwarel am 67 mlynedd. Dechrau yn 14eg oed a gorffen yn 81 a chael cyflog sobor o fychan ar hyd ei oes.

"Dynes fawr, fawr oedd fy nain, mam fy nhad. Byddai yn dwad am dro o Borthmadog i Lanberis i weld ei merch, Elin. Yr oedd nain yn edrych, medda nhw, fel Red Indian. Gofynnodd i Elin rhyw dro, 'Sut wyt ti yn rhoi oel yn y lamp yma dywed?' – eglurodd Elin mai lamp nwy oedd hi. Ond 'roedd hynny yn ormod o ddirgelwch i'r hen wraig. Dywedir y byddai'n taro i'r gof yn yr efail, a bod morthwyl saith bwys yn 'swingio' fel blewyn yn ei llaw! Arferai smocio pibell glai, medda nhw."

Mentrais ofyn fel hyn: "Pan fyddwch chi'n teimlo'n ddigalon fel pawb weithia', i lle byddwch chi yn mynd i gael cysur o'ch adgofion?"

Atebodd ar ei union, "O, i'r Frontier yn India. Bûm yno am ddwy flynedd o 1924. 'Roedd hi'n boeth ofnadwy yno ac yn beryglus hefyd. Yr oeddwn yn cysgu bob nos hefo gwn yn fy ngwely a phum bwled yn barod i danio. Yr oedda' ni 14 milltir i'r Dwyrain o'r Kyber Pass – lle 'run fath â Bwlch Llanberis. Yr oedd o'n arwain o India i Afganhistan.

"Yr oedd gan bob un ohonom gi a phawb yn mynd â'i gi hefo fo i bob man. Beth pe gwelech y cŵn yn rhedeg ar ôl y mwncïod a rheiny yn mynd am 'u bywyd i fyny'r coed – Ha, Ha, Ha. Fyddai'r cŵn byth yn dal mwnci, cofiwch. Y pechod mwya' oedd curo ci. Yr oedd cant a hanner o gŵn yn y camp. Mi fyddem yn cael digon o sbarion o'r *cookhouse* i fwydo'r cŵn. Mi fuasech yn chwerthin pe clywsech ni yn siarad hefo'r cŵn. A phawb yn rhoi enw neis ar ei gi, wrth gwrs. Yr oedd gan bob ci enw.

Cyrli Tail oedd enw un ci. Big Boy un arall, Fonti hefyd, Floss oedd enw fy nghi i. Ond Big Boy oedd y gora am gwffio ohonyn nhw i gyd. Un rupee oedd pris *licence* i'r ci. Ar ôl hanner dydd y bydda ni yn gollwng y cŵn i redeg ar ôl mwncis."

"Mae'n siŵr eich bod wedi cael llawer profiad arswydus mewn lle felly?" Atebodd, "Wel, do, 'rwy'n cofio diwrnod Dolig a chi bach du a gwyn wedi disgyn i lawr siafft gant a hanner o droedfeddi. Es i lawr y siafft hefo rhaff i achub y ci bach a dwad â fo i fyny yn saff. Cefais ddau rupee am y job a diolch wrth gwrs. Ond am dafod ges i wedi mynd yn ol i'r ysbyty lle yr oeddwn yn gweithio. Yr oeddwn yn hwyr ar y *duty* a'r meddyg wedi gwylltio.

" 'Rwy'n cofio'r cyrnol yn sâl a dyma fi yn cael ordors i wylio'r cyrnol trwy'r nos wrth ochr ei wely. Beth bynnag i chi, dyma'r cyrnol yn deud wrtha i fel hyn, 'Y ffyliaid gwirion ydyn nhw yn disgwyl i mi farw. Wel wna i ddim. Dos i dy wely i gysgu Twm – *Go to bed my boy*'. Ac mi es. Mi gysgodd y cyrnol a finnau tan y bora – Ha, Ha, Ha."

"Cyn i mi fynd, wnewch chi ddeud pa un yw'r adnod fwya yn y Beibl?" Atebodd Twm Patrwm, "Rhowch a chwi a gewch".

Y mae adnod Twm siŵr o fod yn wir!


**Ar Werth: TŶ**

**BETHESDA**

**Adeiladwyd 1975;**
**gwres canolog-nwy;**
**4 ystafell wely;**
**Tua £14,500**

**Gardd a golygfeydd hyfryd.**

**Gwag o Hydref 1af ymlaen**

**FFONIWCH**
**(0248) 600933**
**ar ôl 6 p.m.**



MODURDY MENAI



FFORDD CAERNARFON
Y FELINHELI

Ffôn : Portdinorwic 882
Perchennog : J. Evans


# SIBRYDION O'R YSGOLION

### YSGOL BRYNREFAIL

Llongyfarchiadau i Dylan Owen ac Euron Griffith ar fod yn llwyddiannus yng nghystadleuthau arlunio Eisteddfod yr Urdd – enillodd Dylan wobr gyntaf yng nghystadleuaeth dosbarthiadau 1 a 2, ac enillodd Euron wobr gyntaf yng nghystadleuaeth dosbarthiadau 5 a 6.

Llongyfarchiadau hefyd i Mary Walton, dosbarth 1L, am ennill gwobr a thystysgrif mewn cystadleuaeth arlunio a drefnir gan 'Kellogg's'. Bydd ei llun yn ymddangos yn y "Mall Galleries', Llundain, a'r 'Walker Art Gallery', Lerpwl.

Llongyfarchiadau i Eifion Jones, dosbarth 6, am ennill gwobr o £3 yng nghystadleuaeth 'California '78', a drefnir gan Fanc Lloyd's.

Bydd Delyth Williams a John Roberts, capteiniaid yr ysgol, yn cymryd rhan yn yr Orymdaith yn Seremoni Cyhoeddi'r Eisteddfod Genedlaethol yng Nghaernarfon.



*Llongyfarchiadau i ddosbarth gwyddoniaeth Mr. Iwan Roberts, Ysgol Dolbadarn a ddaeth yn gyntaf gyda chywaith ar 'Fesur Amser' o dan 12 oed yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanelwedd.*



*Tair o enethod Ysgol Dolbadarn (o dan ofal Miss Jane Morris) a fu'n llwyddiannus yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Llanelwedd. Daeth Fiona Jones yn ail am waith brodwaith o dan 12 oed, Heddwen Hughes yn drydydd am waith brodwaith dan 10 oed ac Anita Guck yn ail am waith nodwydd o dan 12 oed. Llongyfarchiadau iddynt.*

### GWIBDAITH I WLAD BELG

**Cafodd rhai o blant hynaf ysgol Llanrug a Bethel drip i Wlad Belg yn ystod y mis. Sôn am hwyl – a dyma i chi ddyddiadur bychan a ysgrifennodd Delyth Huws, Sharon Williams, Carys Jones, Gillian Williams, Nigel Griffith a Gareth Jones. Mae dau hanesyn wedi dod i law hefyd oddi wrth Louise Cropper a Susan Morris. Bydd yr *Eco* yn cyhoeddi eu straeon maes o law. Ond dyma damaid i aros pryd.**

**MERCHER, MEHEFIN 14:**
Codi cyn cŵn Caer i ddal bws Eric Morris i'n cludo yr holl ffordd o Lanrug i Bredeni yng ngwlad Belg. Y bws yn llawn cyffro – canu, siarad, cysgu, pasio pentrefi a dinasoedd a gwlad brydferth a chyrrraedd Dover. Codi angor a hwylio ar fôr oedd fel pwll hwyaid – sôn am hwyl, – y fath brofiad i ni! – a chyrraedd Calais yn hwyr y prynhawn. Taith o ddwy awr drwy dir gwastad Ffrainc dros y ffin i wlad Belg a chyrraedd y gwesty "Jet Meewenhof" a chyfarfod â Monsieur Raussez glên, a Llanrug a'n teuluoedd ymhell o'n meddyliau.

**IAU, MEHEFIN 15:**
Taith i'r Iseldiroedd i Sluise i weld Melin wynt a honno'n troi go iawn! Wedyn i'r pentre bach o fodelau gwych ym Middlburg – gweld ein hunain yn gewri wrth edrych ar y modelau! Ond corachod wedyn ym marchnad enwog Middleburgh – sôn am sŵn a miri – stondinau o bob math a phawb yn gwario fel ffyliaid. Noson o ganu a dawnsio yng nghwmni diddan plant o'r Alban. Y Celtiaid yn ymuno yng ngwlad Belg!

**GWENER, MEHEFIN 16:**
Tair bore i Brugge – Ferries y Gogledd. Gweld merched yn trin les, taith ar gamlas o gwmpas y dref, dringo'r tŵr clychau a chamerâu'n clicio pob eiliad. Dyma oedd byw!

Taith brynhawn i Ostende – crwydro'r ddinas am ddwyawr a phawb yn "siopa munud dwytha"!

**SADWRN MEHEFIN 17:**
Siwrnai'n ôl am Lanrug – y môr yn stormus – un neu ddau yn teimlo'n sâl ond pawb wedi mwynhau yr ychydig ddyddiau dedwydd mewn gwlad estron. Pawb yn barod am un eto y flwyddyn nesaf!

*Delyth Huws, Sharon Williams, Carys Jones, Gillian Williams, Nigel Griffith, Gareth Jones.*

# WAUNFAWR

YMDDIHEURIADAU i chi, ddarllenwyr yr Eco yn y Waun nad oes cymaint ag arfer o hanesion o'r pentref y mis yma. Fe gollwyd o'n plith Mr. W. Vaughan Jones, Hafod y Coed, oedd yn gyfrifol, gyda Mrs. Vaughan Jones, am y golofn hon. Nid oes angen inni ymhelaethu ymhellach ar deyrnged y Dr. John Gwilym Jones yn y rhifyn yma i Mr. Vaughan Jones. Digon yw dweud mai tasg amhosibl fydd llenwi'r bwlch a adawodd ar ei ôl. Mawr yw ein cydymdeimlad gyda Mrs. Vaughan Jones a'r teulu.

GWAELEDD – Mae Mrs. J.E. Davies, Glanfa, yn dal yn bur wael yn ei chartref. Dymunwn adferiad buan iddi.

YN YR YSBYTY – Dymunwn adferiad buan hefyd i Mr. R.E. Jones, Bryn Derwen, sydd yn yr ysbyty ym Mangor ar hyn o bryd; hefyd i Eluned Coles, Bro Waun, ac Ella Wyn, Graianfryn.

O'R YSBYTY – Croso'n ôl i Gwilym Hughes, Tref Eilian, a Francis Williams, Bryn Golau.

CRICED – Chwaraeodd nifer o'r pentref i dîm criced Cymdeithas Tai Gwynedd yn erbyn tîm o Bwllheli y noswaith o'r blaen. Sgoriodd tîm Pwllheli 92 o rediadau, a thîm Tai Gwynedd 91. Perfformiodd Rob. Jones a Haydn Jones yn arbennig o dda, ac onibai i Dafydd Iwan fynd allan i'w bêl gyntaf dichon y buasem wedi ennill y gêm!

Beth am ffurfio tîm criced yn y pentref y flwyddyn nesaf? Cysylltwch â Haydn Jones, Rhandir Mwyn, os oes gennych ddiddordeb.

SWYDD – Llongyfarchiadau i Mrs. Alma Jones ar ei phenodiad i swydd fel athrawes ran amser gyda Phwyllgor Addysg Gwynedd.

MERCHED Y WAWR – Cynhaliwyd Helfa Drysor i ddiweddu'r tymor ar Fehefin 22, ac enillwyd yr Helfa gan Mrs. Alma Jones gyda Mrs. Nan Huws Roberts wrth ei hochr. 'Roedd hyn yn gryn gamp gan nad yw Mrs. Jones wedi pasio ei phrawf gyrru eto. Credir ei bod yn trio am y pymthegfed tro y mis hwn.

Enillydd y raffl oedd Mrs. Cadi Jones, Bryn Meurig, a sebonau oedd y wobr – dichon y cawn sopranos oddi yno toc!

Y swyddogion am 1980 fydd:

Llywydd: Mrs. Marion Iwan, Trysorydd: Mrs. Carys Jones. Aelodau'r pwyllgor: Mrs. John Austin Jones; Mrs. Bracegirdle; Mrs. Glenys Jones; Mrs. Nan Huws-Roberts; Mrs. Carys Owen; Mrs. Bet Hughes; Mrs. Menna Williams.

DRAMA – Llongyfarchiadau i Nia Einir, Rhos Lan, ar ennill ei Diploma mewn Drama yng Ngholeg Cerdd a Drama, Caerdydd.

NEINIAU A THEIDIAU – Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Wyn Jones, Eilian View, ar enedigaeth eu hwyres – merch i Iola. Hefyd Mr. a Mrs. George Taylor, 10 Dôl Elidir, ar enedigaeth merch fach i Catherine.

CARNIFAL YR YSGOL FEITHRIN – Dymuna Pwyllgor y Carnifal longyfarch Sandra Wyn Roscoe ar fod yn frenhines y Carnifal yn y Waunfawr eleni. Coronir Sandra gan y gynfrenhines, Bridget, nos Wener, Gorffennaf 14 ar faes chwarae'r ysgol. Ar ôl y coroni cynhelir y Mabolgampau, ac ar ddydd Sadwrn, Mehefin 15, bydd gorymdaith y Carnifal yn cychwyn o Drefeddyg am 2 o'r gloch. Agorir a beirniedir y Carnifal gan Syr Wymff a Phlwmsan. I ddiweddu'r diwrnod bydd swper yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert gyda chroeso cynnes i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN – (Trip Blynyddol) – Caiff plant yr Ysgol Feithrin wibdaith eto eleni ar hyd glan Llyn Llanberis, – a'r dyddiad fydd Gorffennaf 4.

WYTHNOS O WEITHGAREDDAU TUAG AT YR EISTEDDFOD –GENEDLAETHOL – Bydd y Waun yn fwrlwm o weithgareddau yn ystod mis Gorffennaf gyda pharatoadau fydd yn apelio at bob copa walltog. Dyma'r rhaglen:

GORFF. 7: Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys.

GORFF. 8: Bydd Alan Denton, Ynysoedd, yn dringo 14 o fynyddoedd Eryri sydd dros 3000 o droedfeddi, ac yn cael ei noddi gan y pentrefwyr. Dyma'r tro cyntaf iddo geisio cyflawni'r gamp gan iddo ddringo 11 mynydd o'r blaen. Bydd yn cychwyn o Lanfairfechan tua 6 o'r gloch y bore.

GORFF. 9: Cymanfa Ganu yng nghapel Croes-y-Waun gyda Mr. Hughes, Caeathro yn arwain.

GORFF. 10: Rali Geir yng ngofal Alma Jones a Nan Huws-Roberts.

GORFF 11: Pêl-droed – pump bob ochr.

GORFF. 12: Gemau Giamocs gydag offer go iawn. Tîm o'r Waun yn cystadlu yn erbyn pentrefi cyfagos. Noson i'w chofio!

GORFF. 13: Dringo'r Foel yng ngofal Geraint Davies. Fe noddir y cerddedwyr unwaith eto.

PLAID CYMRU – Tynnwyd tocynnau'r Clwb Cant yng nghynhadledd y Blaid a gynhaliwyd yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

Enillwyr y mis: 1af: Siôn Rhys Jones, Penrhos; 2: Greta Hughes, 16 Tref Eilian; 3: Emlyn Williams, Anneddle.

YR YSGOL GYNRADD – Bu disgyblion yr ysgol yn brysur iawn yn ddiweddar yn casglu arian drwy gael eu noddi ar gyfer profion sillafu. Casglwyd dros £300 a hanerwyd yr arian rhwng Cronfa'r Ysgol a Chronfa Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Llawer o ddiolch i'r Prifathro a'r Staff am eu hymdrech.

CAPEL BETHEL – Bydd trip yr Ysgol Sul yn cychwyn o ymyl y Llythyrdy am 9 o'r gloch, ddydd Sadwrn, Gorff. 8, ac yn mynd i'r Rhyl. Os oes rhai o blant yr Ysgol Sul eisiau mynd rhoddwch yr enwau i Llifon.

CAPEL CROES Y WAUN – Bydd y trip Ysgol Sul eleni yn mynd ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 8. Ceir rhagor o fanylion gan Dafydd Iwan.


YN YR YSBYTY – Mae Michael Parry, Ffridd Felen, yn ysbyty Gobowen yn cael triniaeth i'w law. Brysiwch i wella.

CLWB Y MAMAU – Gorffenwyd y tymor drwy gynnal Helfa Drysor. Cafwyd noson ardderchog, a gwledd ar y diwedd yn 'Tŷ Mawr', Llanfairpwll.

(Hoffwn ddiolch yn fawr iawn i Norman Williams, am ei gymorth parod gyda'r gwaith o baratoi colofn newyddion y Waunfawr y mis yma. Diolch yn fawr Norman. –Tony Elliot Golygydd Newyddion)

Cefnogwch ein Hysbysebwyr

# CAPEL COCH



DYMA un o'r lluniau mwyaf arbennig a yrrwyd eto i'r *Eco*. Llun Capel Coch Llanberis fel ag yr oedd cyn yr adeilad presennol. Diolchwn i Gwyneth Arfon, Morfa Nefyn, am gael ei fenthyg. Chwi gofiwch i Gapel Coch ddathlu ei ddauganmlwyddiant y llynedd. Faint yw oed y llun uchod ysgwn i? Oes rhywun yn gwybod?

## AI HON FYDD YR ORAU?

Ers sawl blwyddyn bellach cynhelir Noson o Gân yng Nghapel Coch Llanberis. I'r rhai ohonoch sy'n dod yn flynyddol i'r noson arbennig hon – gellwch dystio, mae'n bur debyg, fod y canu a'r awyrgylch yn rhywbeth i'w gofio ac i'w drysori. Noson agoriadol Wythnos Weithgareddau Llanberis ydyw. Mae'n bur debyg hefyd fod y Capel Coch presennol a'r un uchod wedi gweld cynulleidfaoedd niferus iawn ac wedi clywed sawl Cymanfa Ganu a Chyngerdd bythgofiadwy. Yma y byddai Côr Cymysg Llanberis yn perfformio eu Oratorios gwych. Clywyd gweithiau cerddorion mawr megis Handel, Rossini a Hydn yn cael eu canu gan y werin a chantorion byd enwog yn unawdwyr.

Ar y radio ddechrau'r flwyddyn clywyd y prifathro a'r cerddor T. Gwynn Jones yn tystio mai'r Gymanfa Ganu orau iddo erioed ei harwain oedd "Noson o Gân" yng Nghapel Coch Llanberis y flwyddyn diwethaf. Tipyn o glod gan ŵr sydd wedi arwain canu mewn sawl gwlad.

Y flwyddyn yma, nos Sul Gorffennaf 9ed, fe gaiff Mrs. Magdalene Jones – arweinydd adnabyddus Côr Meibion y Traeth – y cyfle i arwain pobl bro'r *Eco* mewn cân yng Nghapel Coch. Ysgwn i a gaiff Mrs. Jones yr un wefr?

Chwi bobl Llanberis a'r cylch all wneud y noson hon "yr orau eto". Cymerir rhan yn y noson gan Gôr Meibion y Traeth a Pharti Glynrhonwy. Y cyfeilydd fydd Mr. Hugh Peris Pritchard. Bydd taflenni ar werth wrth y drws.

# BETWS GARMON

DYMUNIADAU GORAU – i Miss Eirian Williams, Ty'n Weirglodd yn ei swydd gyntaf yn y Llythyrdy'r Waunfawr.

YMRYSON CŴN DEFAID – fe'i cynhelir ddydd Gwener, Awst 11 (i ddechrau 2.30 p.m.) a dydd Sadwrn, Awst 12 (i ddechrau am 9.00 a.m.).


E.W.&M.WILLIAMS



Y BECWS
DEINIOLEN
FFÔN : LLANBERIS 232

BARA FFRES – TEISENNAU BLASUS !

*(Rydym yn arbenigo mewn teisennau Priodas)*

***

DOSBARTHWN BOB LLUN, MERCHER A GWENER
YN NEINIOLEN, DINORWIG, FACHWEN

# BETHEL

EISTEDDFOD CAERNARFON – Nos Wener, Mehefin 9 cynhaliwyd Ffair Haf yn y Neuadd, yr elw at Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Y gŵr gwadd oedd Mr. Frank Rhys Jones, Tregarth (gynt o Fethel). Gwnaed elw o £165.16.

Enillwyr y Brif Raffl oedd: 1) Bwrdd Coffi –Aled Bebb, Llwyn Eithin; 2) Caserol Wydr – Carys Parry, Hafod Elen; 3) Potel o Sieri – Eluned Owen, Y Coleg Normal 4) Bocs o Nwyddau – Wyn Jones, Banc y Midland, Bangor; 5) Bocs o Ffrwythau – Bleddyn A. Williams, Treborth Uchaf, Bangor; 6) Potel o Port – Mrs. Shirley Evans, Erwau'r Gwynt; 7) Cyw Iâr – Mrs. Nerys Owen, Corra Linn, 8) Bocs o Siocled – Sheila Morris, Caernarfon; 9) Dau bâr o Tights – Mrs. Ella Morgan, Acer Las, Stad y Rhos; 10) Dwsin o wyau – Siân E. Jones, Y Coleg Normal.

Enillwyr rafflau eraill oedd, Lliain Bwrdd wedi ei grosio – Mrs. Helen Bebb, Llwyn Eithin, Potel o Sieri – J.E. Thomas, Tan y Buarth, Mistar Urdd – Mrs. E. Evans, Blaen Parc.

Enillwyd Bocs o De gan Mr. Goronwy Jones, Glan Gors a chacen wedi ei rhoddi gan Mrs. Sam Jones, Cefn, gan Mrs. Roberts, Penrhos Farm.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb am eu cefnogaeth.

LLONGYFARCHIADAU – i Euron Griffith, Crud yr Awen ar ennill y wobr gyntaf yn y gystadleuaeth arlunio i ddisgyblion dosbarthiadau 5 a 6 mewn ysgolion Uwchradd yn Eisteddfod yr Urdd.

CLWB 100 – Enillwyr y Clwb 100 fis Mai oedd: 1) Mr. Peter Bryfdir Jones, Rhoslan; 2) Mr. Hugh Hughes, Eryri; 3) Mr. Richard Mill, Seion. Daeth Mr. Peter Bryfdir Jones yn gyntaf pan dynnwyd y gwobrau ar gyfer mis Mehefin yn ymarfer y Côr Adrodd hefyd, gyda Mr. Deiniol Williams, Cilgwyn yn ail a Mr. John Cadwaladr, y Waunfawr yn drydydd.

Erbyn hyn mae Bethel wedi cyfrannu £632 tuag at yr Eisteddfod, y nod i'r pentref yw £2.2250.

BEDYDD – Bore Sul, Mehefin 11 yng Nghapel Cysegr bedyddiwyd Catrin Angharad, merch Mr. a Mrs. Dylan Hughes, Crawia. Gweinyddwyd gan y Parch. W.R. Williams.

LLONGYFARCHIADAU – i Miss Mary Wyn Williams, Granville ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 21 oed ar Fai 30

iMrs. G.A. Williams (Miss Hughes) a Mr. Ellis R. Jones ar ennill graddau B. Addysg, Coleg Prifysgol Cymru. Mae'r ddau wedi bod yn dilyn cwrs fel myfyrwyr allanol ers tair blynedd .

CYDYMDEIMLO – Ddydd Llun, Mehefin 19, ar ol gwaeledd hir, bu farw Mr. J. Bennett, Bro Rhos yn 42 mlwydd oed. 'Roedd yr angladd ddydd Iau ym mynwent Llanddeiniolen. Mae'n cydymdeimlad llwyraf â'r teulu yn eu profedigaeth.

EISTEDDFOD BETHEL – Fe gynhelir Eisteddfod Bethel eleni, nos Wener Tachwedd 10 a nos Sadwrn, Tachwedd 11, gyda'r cystadleuthau nos Wener wedi eu cyfryngu i blant Bethel. Y beirniaid fydd: Cerdd: Mr. Gilmore Griffith, Dinbych; Adrodd a Llenyddiaeth: Y Parch. Emrys Edwards, y Groeslon.

YR YSGOL – Mae'r Heddlu yn hyfforddi plant y dosbarth uchaf yr ysgol i reidio beic. Ar ddiwedd y cwrs bydd prawf gan yr heddlu a bydd y reidwyr llwyddiannus yn cael tystysgrifau. Yn ddiweddar bu plant y dosbarth uchaf yn ymweld â'r Frigâd Dân yng Nghaernarfon a bu dosbarthiadau 1, 2, 3 a 4 yn Theatr Seilo yn gweld 'Yr Eco a Gollodd ei Lais'.

Bu Neil Jones a Chris Peters yn cael 'trials' gyda thîm pêl-droed 5 bob ochr dan 12 oed Gwynedd. Cafodd Chris Peters ei gynnwys yn y tîm terfynol.

LLONGYFARCHIADAU – I Mr. a Mrs. Cledwyn Thomas, Llys Derfel, Stryd Ganol ar enedigaeth mab.

I Mr. a Mrs. W.O. Griffith, Lon Glai ar enedigaeth mab.

MERCHED Y WAWR – Nos Fercher, Mehefin 14 daeth y tymor i ben gyda Helfa Drysor lwyddiannus. Llwyddodd pawb i gyrraedd Plas Tan Dinas i orffen y noson gyda Chyw Iâr mewn Basged. Enillwyr yr Helfa oedd Mrs. Megan Evans, Hafod Shalom, Mrs. Eirlys Sharpe, Llys Elen a Mrs. Ann Evans.

Cyflwynwyd diolchiadau i'r swyddogion gan Mrs. Williams, Gwylfa a fydd yn llywydd y tymor nesaf.

BETWS GARMON (Atodiad)

EISTEDDFOD '79 – Cyrhaeddodd y pentref eu nod o £250 a throsglwyddwyd yr arian yn swyddogol i Swyddfa'r Eisteddfod yng Nghaernarfon bnawn Mercher, Mehefin 28.

NOSWYLIO

Pan ddelo'r gwyll i lapio
Ei siôl am ysgwydd bryn,
A llenni'r hwyr yn disgyn
Tros ddyfroedd oer y llyn;
Mi wn fod dydd yn dod i ben
Pan wincia'r lampau yn Fachwen.

A phan ymguddia'r Wyddfa
Dan glogyn du y nos,
A'r barrug byw yn berlau
O chwŷs ar lawnt a rhos;
Gwn na fydd fawr o ddydd ar ôl
Pan grawcia brân yng Nghoed-y-Ddôl.

Pan lifa ias diwygiad
I'r stryd ar "Galon Lân",
A'r hogia' ym mar Dolbadarn
Yn mynnu dyblu'r gân;
Mi wn wrth ddrachtio'r "mawl a'r clod"
Fod awr noswylio wedi dod.

*Un o'r cerddi a enillodd i Selwyn Griffith Gadair Eisteddfod Pontrhydfendigaid.*



*Dosbarth Ysgol Sul Dinorwig tua throad y ganrif. Y llun trwy law Mrs. G. Jones, Bangor.*

ATODIAD LLANRUG

O'R YSBYTY –Balch gennym ddeall fod David Gareth, mab bychan Mr. a Mrs. Brynwyn Morris gartref o'r ysbyty. Dymunwn adferiad buan iddo.

# CWM-Y-GLO

BEDYDD ESGOB – Gweinyddwyd y Sacrament o Fedydd Esgob yn ddiweddar yn Eglwys Sant Mihangel Llanrug pryd y conffyrmiwyd pedwar o blant Eglwys Sant Gabriel gan ei Ras Archesgob Cymru. Aeth nifer fawr o'r aelodau i'r gwasanaeth. Yn Eglwys Sant Gabriel yr oedd gwasanaeth yr hwyr a daeth aelodau o Eglwys Sant Mihangel i gyd-addoli. Yn ystod y gwasanaeth a arweiniwyd gan y Rheithor cyflwynwyd rhoddion ar ran yr Eglwys i'r pedwar ar ddeg a gonffyrmiwyd. Yr oedd y llyfrau wedi eu harwyddo gan yr Archesgob. Yr organyddes oedd Miss C. Hughes.

DYMUNIADAU DA – i Berwyn Whiteside, mab Mr. a Mrs. Llew Hughes, Hyfrydle, ac Einir Wyn, merch Mr. a Mrs. Eric Jones, 29 Dôl Beuno, Bontnewydd a briodwyd yng Nghapel Siloam ar 17 Mehefin, gyda'r wledd briodas yng Nghwesty'r Victoria Llanberis. Mae'r priodfab yn Weithiwr Ieuenctid yng Nghanolfan Gymdeithasol Noddfa, Caernarfon, a'r briodferch yn Gynorthwywr adferol yn ysbyty Bryn Seiont.

Balch ydym fod y pâr ifanc yn ymgartrefu ym mro'r Eco, sef yn 34 Stad Glanffynnon, Llanrug. Mae Berwyn eisoes wedi ysgrifennu i'r papur, ac mae'n siŵr y cawn gyfraniad pellach oddi wrtho. Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddynt yn eu bywyd priodasol, ac yn eu cartref newydd.

Y CARNIFAL – Fel y cyhoeddwyd eisoes, bydd carnifal y Cwm yn cael ei gynnal o'r 16 i'r 22 o Orffennaf. Ceir mwy o fanylion ar bosteri eto, ond dyma fraslun o'r rhaglen:

Sul 16: Cymanfa Ganu yn y Tabernacl, Arweinydd: Mr. Irfon Ellis, Organyddes: Miss Annette Bryn Roberts a bydd 'Parti'r Bryniau' yn gwasanaethu.

Llun 17: Helfa Drysor a Natur i rai o 10–15 oed.

Mawrth 18: Noson o adloniant, a gwobrwyo y tîm pêl-droed. Mynediad am ddim i'r henoed.

Mercher 19: Helfa Drysor (Moduron)

Iau 20: Gornest y Dartiau

Gwener 21: Mabolgampau

Sadwrn 22: Y Carnifal – i'w hagor – Caleb yn bresennol – Seindorf Arian a Dawnswyr Morris, Llanrug.

Nos Sadwrn: Dawns yng ngwesty Victoria Llanberis, yng nghwmni Grŵp Outlaws. Bydd cyw iâr a sglodion.

BRYSIWCH WELLA – Dyna ddymuniad pawb ohonom i Mrs. Nora Sinclair, 8 Dolafon sydd mewn ysbyty. Gwellhad buan fo i amryw eraill sydd heb fod yn dda eu hiechyd yn ddiweddar.

CYDYMDEIMLO – Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Elfed Roberts, a Mark, 7 Craig y Don, ar farwolaeth Mrs. Salisbury o Gaernarfon – nain Mrs. Roberts, a hen-nain Mark.

BABAN NEWYDD – Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. Ifor Roberts, 8 Craig y Don ar enedigaeth merch fach – Ellen Lloyd. Croeso i'r baban, mae'n sicr o hynny gan taid a nain, 7 Dôl Afon.

TEULU NEWYDD – Croesawn Mr. a Mrs. Ken Williams, Terry a Caren i'n mysg, sef teulu newydd Glanbogelyn. Hyderwn y byddwch yn hapus yma ac y cawn eich cwmni yng ngweithgarwch y pentref.

GARDDWEST – Bwriada Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79 gynnal Garddwest yng ngerddi castell Bryn Bras ar Awst 12 am 2 o'r gloch (trwy fawr garedigrwydd y perchnogion). Nid yw'r trefniadau wedi eu cwblhau eto, ond bydd aelodau'r pwyllgor yn gofalu am stondinau fel a ganlyn:

Cacennau: Mrs. Eluned Hughes, Mrs. Margaret Williams. Cynnyrch Gardd: Mr. Llew Hughes, Mr. Russell Rowlands, Mr. Eurwyn Williams. Eliffant Gwyn: Mrs. Katie Williams, Miss Lizzie Hughes; Poteli: Mrs. Mair Williams, Mrs. Margaret Rowlands. Nwyddau a Da-Da: Mrs. Avril Jones, Mrs. Rhiannon Casey. Blodau a Phlanhigion: Mrs. Iris Rowlands, Miss Mair Rowlands, Mrs. Gwyneth Chick. Raffl: Mr. David Price.

Os oes rhai yn dymuno cefnogi'r fenter, buasai unrhyw gyfraniad yn dderbyniol iawn gan y pwyllgor.

PRIODAS RUDDEM –

Llongyfarchiadau mam a dad, (Mr. a Mrs. Alun Rowlands, Bodafon) ar ddathlu ohonoch eich Priodas Ruddem yn ddiweddar. Dymuniadau da a phob bendith i'r dyfodol – Mair, Wyn, Iris a Neil.

MERCHED Y WAWR – Ar Mehefin 10 aeth aelodau'r gangen leol am daith ddirgel a drefnwyd eleni gan Mrs. Gwyneth Chick, Miss Elizabeth Hughes, Miss Mair Rowlands a Mrs. Iris Rowlands.

Mewn tywydd delfrydol ar gyfer gwibdaith aethpwyd trwy Fwlch Llanberis i Feddgelert a Llanfrothen. Rhwng Talsarnau a Harlech cafwyd gip olwg ar hen amaethdy Glasynys – cartref Ellis Wyn y Bardd Cwsg, ac yna seibiant yn y "Welsh Lady", Tal-y-Bont am de; Ymlaen â ni wedyn i Bentref Crefftau Maes Artro Llanbedr. Yno cafwyd gweld yn ymweld â'r gwahanol siopau sydd yn ganolfan, gan wylio'r crefftwyr medrus wrth eu gwaith.

'Roedd rhai yn nyddu gyda throell law, eraill â throell drydan. Gwau gyda gwlân Cymreig yr oedd un arall, a'r crochenydd a'r gof arian wrthi'n ddyfal gyda'u crefftau hwythau. Yr oedd ystafelloedd i arddangos gwaith coed, lledr, a llechen yno.

Y fan aros nesaf oedd ger hen eglwys Llandanwg, sydd bellach bron â chael ei chladdu gan y tywod. Ym mynwent yr hen eglwys hon y gorwedd Siôn Owen, Tyn y Fawnog, a anfarwolwyd gan Vosper, yma hefyd y mae bedd Siôn Phylip awdur "Cywydd y Wylan". Cafwyd seibiant yng Nghricieth ar y ffordd adre ar ôl cael diwrnod i'w gofio'n hir.

Diolchwyd yn ffurfiol i'r bedair chwaer am drefnu'r daith gan Mrs. Mair Davies a Mrs. Glenys Pritchard.


CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

E. & E.M. GREEN
SIOP GRON
A SWYDDFA'R POST
PENISARWAUN
Ffôn: PADARN 272
NWYDDAU GROSER
FFRWYTHAU A LLYSIAU
FFRES

# Pencampwraig leol yn trafod y Ras Fawr

**"MAE'N mynd i fod vn anodd iawn i mi ddod yn gyntaf yn y ras eto eleni ond byddaf yn sicr o fod yno ac yn gwneud fy ngorau i ennill". Dyna eiriau penderfynol Joan Glass y wraig tŷ a'r fam leol sydd ers y llynedd yn dal record adran y merched yn Ras Pen yr Wyddfa.**



Mae Joan Glass a'i gŵr Denis yn cadw hostel ieuenctid yn Llanberis, ac er ei bod wedi setlo yng nghanol y mynyddoedd yma ers dros dair-mlynedd-ar-ddeg bellach, peth cymharol ddiweddar yw'r awydd yma ynddi i redeg drostynt Mae ei gŵr yn rhedwr mynydd profiadol a fo fu'n bennaf gyfrifol am annog Joan i ddechrau hobi mor egniol.

Yn ystod ei thair blynedd fer o redeg yn gystadleuol, mae Joan Glass yn barod wedi gwneud enw iddi ei hun. Hi sy'n dal record adran y merched yn ras Ben Nevis yn yr Alban yn ogystal â ras yr Wyddfa a llynedd hi oedd pencampwraig ras Crag Fell yn Ardal y Llynnoedd.

Mae'r holl brofiad yma yn angenrheidiol ar gyfer cael cystadlu yn ras yr Wyddfa, ras sy'n golygu llawer i Joan gan fod iddi bwysigrwydd a diddordeb lleol. Arwydd o'r brwdfrydedd yma i lwyddo yw'r ffaith ei bod yn ymarfer yn rheolaidd y dyddiau hyn drwy redeg rhwng 40 a 50 milltir bob wythnos. "Rhaid gwneud hyn", meddai, "gan fod y gystadleuaeth yn siŵr o fod yn un galed. Bydd rhedwyr ieuanc, profiadol o bob cwr o'r Ynysoedd Prydeinig yn cystadlu yn adran y merched, a bydd llawer o redwyr traws-gwlad rhyngwladol yn eu plith. Mae ei gŵr, sy'n cystadlu yn adran y dynion, yn sylweddoli fod siawns Joan i wneud yn dda yn ei hadran yn llawer gwell na'i siawns o. Felly, hi yw'r un sy'n ymarfer galetaf ar hyn o bryd.

Pan ofynnwyd iddi am ei sylwadau ar y ras ei hun dywedodd mai'r rhan anoddaf yw rhedeg i lawr y tir garw a'r cerrig rhydd. Nid yw'r pellter, tua 10 milltir i gyd, yn ei phoeni'n ormodol ac nid yw'n ystyried y ras fel yr un anoddaf yng nghalendr y rhedwyr mynydd. Mae rasus eraill fel yr 'Edale Skyline' sy'n 14 milltir a'r "Copäon Cymreig" sy'n 12 milltir yn cynnwys nid un ond nifer o gopäon i'w gorchfygu yn yr un ras.

Bydd dau fab Denis a Joan hefyd yn cystadlu yn eu hadrannau arbennig. Daeth David, sy'n 12 oed, yn drydydd ddwy flynedd yn ôl, ac mae Brian, sy'n 8 oed, ond yn hen law,yn cystadlu yn ras yr Wyddfa am y drydedd waith.

'Roedd Joan Glass yn canmol y trefnwyr am eu paratoadau yn gyffredinol ac yn arbennig am ddarparu ar gyfer plant a phobl ifanc. Gwelai hyn yn ffordd o ennyn eu diddordeb mewn rhywbeth heblaw pêl-droed.

Wrth ddymuno'n dda i'r bencampwraig a'i theulu dylem estyn yr un dymuniadau i bob un o'r cystadleuwyr lleol fydd yn brwydro yn erbyn yr Wyddfa ar Orffennaf 15.

Bydd y canlyniadau a'r lluniau yn yr Eco.

# DINORWIG

CYMDEITHAS LENYDDOL UNDEBOL — Aeth aelodau'r Gymdeithas ar daith i Aberystwyth, Sadwrn 10 Mehefin. Cychwynnwyd o Ddinorwig i Borthmadog, Maentwrog, Dolgellau, Corris, Machynlleth ac i Aberystwyth. Wedi seibiant am ginio, cychwynnwyd yn ôl am Bont y Gŵr Drwg, Ponterwyd, Phumlumon, Llanidloes, Croesoswallt, Llangollen, trwy Fwlch Llanberis, ac adref i Ddinorwig. Mwynhawyd y daith yn fawr. Trefnwyd y daith gan Bwyllgor y Gymdeithas, Mr. Gwilym Ll. Williams (Deiniolen Motors); Mr. David Ll. Hughes a Mr. R.H. Williams. Talwyd diolch am y trefniant ar ran yr aelodau gan Mr. O.R. Williams.

DIOLCHIADAU — Dymuna Miss Lil Roberts (Maen Gwyn gynt), o Elm Bank, Siliwen Road, Bangor, ddiolch i'r teulu, perthnasau, a chyfeillion yn Ninorwig a Deiniolen am y cardiau a'r cyfarchion dderbyniodd yn ddiweddar ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed.

Dymuna Mrs. Nesta Jones (Tanybryn gynt) o 2 Llys Gwynt, Penisarwaun, ddiolch o galon i'r teulu, perthnasau a chyfeillion am eu dymuniadau da a'r cardiau a dderbyniodd ar achlysur ei phen-blwydd yn 80 mlwydd oed yn ddiweddar.

O'R YSBYTY — Croesewir gartref o'r ysbyty wedi triniaeth feddygol Mr. Alun Phillips, 6, Maes Eilian.

NOSON GOFFI — Cynhaliwyd noson goffi yn y Ganolfan nos Wener, 16 Mehefin. Elai'r elw at fand Deiniolen a'r cylch.

COFION — Anfonir ein cofion at Mr. John H. Williams, 7 Maes Eilian, sydd yn Ysbyty Bryn Seiont, Caernarfon.

DAMWAIN — Cyfarfu Mrs. Annie Thomas, Creigle â damwain i'w choes yn ddiweddar. Dymunir gwellhad buan iddi.

TAITH GERDDED — Yn ffodus iawn ar ol dau ddiwrnod o law trwm cawsom fore braf i fynd ar ein taith gerdded — Sadwrn, Mehefin 17. Er mai dim ond hanner dwsin ohonom a gerddodd bu i ni gyd fwynhau y daith. Er nad yw'r arian wedi ei gasglu i gyd eto gobeithiwn gyfrannu dros £20 tuag at Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Dyma enwau'r cerddwyr — Kelvin Pleming; Meirion Thomas; Iona Wyn; David Vaughan, Alwyn ac Eric Wyn; Glyn Thomas. Diolch iddynt am eu brwdfrydedd ac i holl drigolion yr ardal am fod mor hael i'w noddi ar y daith. Diolch arbennig i'r Cynghorydd Rennell Williams am ddod atom i gychwyn y daith a chadw golwg ac i Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n Fawnog am baratoi'r lluniaeth.

ARDDANGOSFA — Bwriedir trefnu arddangosfa yn y Ganolfan leol yn ystod y mis hwn — Gorffennaf 18—22 (Mawrth—Sadwrn; 2.00—8.00). Y bwriad yw casglu gymaint ag sydd bosibl o gynnyrch diddorol o bob math i'w harddangos i'r cyhoedd. Yr hyn yr hoffem i chwi ei wneud yw casglu ynghyd unrhyw gynnyrch a allai fod o ddiddordeb cyffredinol i'w harddangos mewn arddangosfa o'r fath. Fe all y pethau hyn amrywio o fod yn lluniau (hen a newydd) o'r ardal; ysgol; Capel; Eglwys; Chwarel; neu luniau diddorol o ardaloedd eraill; defnyddiau hen a newydd; gwaith llaw a chrefft; darluniau; dilledyn neu declyn anarferol, Iliwgar neu hynafol. Mae rhai ohonoch yn ymddiddori mewn diddordebau arbennig — os felly beth am arddangos rhai o'r cynnyrch? Yn fyr, unrhyw beth — bach neu fawr a allai fod o ddiddordeb cyffredinol i'r cyhoedd. Felly beth am fynd ati i chwilota o gwmpas y tŷ am bethau o'r fath. Yna hoffem i chwi rhoi benthyg eich cyfraniadau i ni i'w defnyddio yn yr arddangosfa. Gallwn eich sicrhau y bydd pob gofal posibl yn cael ei wneud ohonynt, a bydd y cyfan yn cael eu dychwelyd i'r perchnogion ar y diwedd.

Bydd y Ganolfan ar agor i dderbyn eich cyfraniadau ar ddydd Llun — Gorff. 17 rhwng 10.00 y bore a 7.00 yr hwyr.

Bydd unrhyw elw ariannol a wneir o'r fenter yn mynd at Gronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon. Y trefnwyr yw Miss Nellie Wyn Jones; Mrs. Dilys Williams; Mr. Rennell Williams a Glyn Thomas.

LLWYDDIANNUS ETO — Daeth llwyddiant mewn Sioe ag Eisteddfod i rai o ardalwyr yn ystod y mis. Bu Shirley Williams, Bron Eilian a Mr. Hugh Thomas, 1 Bro Elidir yn llwyddiannus yn Sioe Dyffryn Ogwen a gallwn ymfalchio yn llwyddiant Cor Genethod Llanberis yn Eisteddfod Dyffryn Conwy Llanrwst gan fod rhai o enethod Dinorwig yn aelodau o'r côr.

CROESO NOL I GYMRU FACH — Dyna oedd cyfarchiad Mr. William Williams, Chwarel Goch i dri o'i hen ffrindiau a ddaeth ynghyd i'w gartref ar brynhawn Sul, Mehefin 18. Nid oedd Mr. Williams wedi cyfarfod â dau ohonynt ers blynyddoedd gan fod Mr. Hywel Jones (gynt o Lanrug) yn byw yn yr America, a Mr. Thomas Roberts (gynt o Tŷ'r Ardd, Llanrug) wedi cartrefu ers blynyddoedd maith yn Awstralia, tra bod Mr. Jack Davies yn awr yn byw yn Conwy ar ôl bod yn Awstralia am flynyddoedd. Fel y gellid tybio, 'roedd gan y pedwar dipyn i'w ddweud wrth ei gilydd am yr hen ddyddiau, a chawsom flas o'r hyn a ddywedwyd ar y rhaglen 'Helo Bobol' fore Llun, Mehefin 19.

TAITH HANESYDDOL
I DDYFFRYN ARDUDWY

Aeth Cymdeithas Undebol Pontrhythallt ar daith hanesyddol i Ddyffryn Ardudwy gyda Miss Mat Pritchard, Caernarfon, ddydd Sadwrn Mehefin 3.

Ar y daith arhoswyd wrth Gapel Bedyddwyr Llanllyfni, a soniodd am y gweinidog enwog a fu yno, Y Parch. Robert Jones. Ymwelwyd a Chlenennau yng Ngolan, maenor bwysig yn hanes Cymru ar un adeg, ac erys rhai adfeilion o'r hen dŷ yno o hyd. Soniwyd am Syr John Owen, un o arwyr rhyfel Cromwell, a fu'n byw yno, ac a gladdwyd ym Mhenmorfa. Tremadog oedd y lle nesaf inni aros lle gwelir Tabled i Robert Isaac Jones (Alltud Eifion), fferyllydd, a oedd hefyd yn fardd ac yn cyhoeddi llyfrau ar wahân i'w waith, ac a gladdwyd ym mynwent Ynys Cynhaearn, yr un man â Dafydd y Garreg Wen.

William Maddock oedd un a greodd Borthmadog a'r Cob. Galwasom ym Mhlasdy Tan-y-Bwlch, cartref yr Oakleys, ond er mawr siom inni, ni chawsom fynd i mewn, ond gwelwyd Dyffryn Maentwrog yn ei ogoniant.

Arhosasom ym Maentwrog, pentref â dylanwad yr Oakleys arno, lle twt, methu a chael mynd i mewn i'r Eglwys, a mynd ymlaen i Harlech — Cae Colyn oedd yr hen enw. Ar lech yw'r ystyr, gan ei fod ar graig. Oddi yno aethom i Landanwg, ar lan y môr, drws yr Eglwys wedi ei orchuddio â thywod. Bedd Siôn Phylip yno, un o nythaid Beirdd Ardudwy. Oddi yno i bentref taclusaf Cymru, sef Llanfair. Buom yn fwy lwcus yno, cael mynd i mewn i'r Eglwys, a gweld bedd Ellis Wyn o Lasynys a fu yno o 1711—1734 ac a gladdwyd yn yr Eglwys. Darllenodd Miss Pritchard ran o 'Gweledigaethau'r Bardd Cwsg' a sylweddoli fod ei waith yn gyfres lawn. Mae yno ffenestr er cof am Edmwnd Prys.

Aethom i'r fynwent a gweld bedd George Owen — holi pwy ydoedd, a gweld enw neb llai na Siân Owen, Ty'n y Fawnog, yr hen wraig y gwelir ei llun yn 'Salem', Vosper. Ymlaen drwy'r Ynys, ond nid aethom i fynwent Llanfihangel y Traethau i weld bedd Mari'r Fantell Wen, a Gwyneth Vaughan.

Ymlaen aem adref wedi cael gwybod llawer am hanes rhan o Gymru, ac wedi cael diwrnod bythgofiadwy.

E.Wh. Thomas.


R.Hughes Jones a'r Mab

The Butchery
BRYN AFON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 3188



Cig blasus — prisiau rhesymol


# Dyddiadur y Mis

Gorffennaf 1, Sadwrn: LLANBERIS – Gwibdaith flynyddol y pentref i'r Rhyl YR ARDAL – Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Caernarfon 1979. Cyngerdd y Cyhoeddi yn Sinema'r Majestic am 7.30. Mabolgampau Sir Eryri yr Urdd ar gae mabolgampau y Goleg Normal, Bangor.
Gorff. 2–8: Wythnos Garnifal Deiniolen.
Gorffennaf 3–8: Gŵyl Penisarwaun. PENISARWAUN – Gêm Pêl-droed y Merched. LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30.
Gorffennaf 4: Mawrth: DEINIOLEN – Disco Awyr Agored ar iard Ysgol Gwaun Gynfi. WAUNFAWR – Trip plant yr Ysgol Feithrin ar y trên ar hyd glan Llyn Padarn. PENISARWAUN – Noson Goffi.
Gorff. 5, Mercher : PENISARWAUN – Gemau Pêl-droed. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Cangen Plaid Lafur yn y Gabolfan am 7.30.
Gorff 6, Iau: LLANRUG – Ffair Haf Cronfa Rigarug yn Ysgol Brynrefail am 7 o'r gloch. PENISARWAUN – Mabolgampau. YR ARDAL – 'Canu'r Werin' yn Theatr Seilo am 8.30.
Gorff. 7–15: Wythnos Garnifal Llanberis.
Gorff. 7, Gwener: WAUNFAWR – Arwerthiant yn Neuadd yr Eglwys – yr elw at Gronfa'r Eisteddfod. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30. YR ARDAL – Ymgyrch y Llwch yn Llanberis, i gychwyn o'r Ganolfan am 1 o'r gloch. LLANBERIS – Clwb yr Henoed. Disco yn y Ganolfan am 7.30, pryd y dewisir Brenhines y Carnifal.
Gorff. 8, Sadwrn – BETHEL – Gwibdaith flynyddol Ysgolion Sul i'r Rhyl. LLANRUG – Gwibdaith flynyddol yr Ysgolion Sul i'r Rhyl. PENISARWAUN – Y CARNIFAL. DEINIOLEN – Y CARNIFAL. WAUNFAWR – Gwibdaith Ysgolion Sul Capel Bethel a Chapel Croes y Waun. Taith Noddedig Alan Denton dros 14 o fynyddoedd Eryri – yr elw at Gronfa'r Eisteddfod Genedlaethol.
Gorff. 9 –13: Wythnos Weithgareddau Pwyllgor Lleol Eisteddfod '79, WAUNFAWR.
Gorff. 9, Sul: WAUNFAWR – Cymanfa Ganu yng Nghapel Croes y Waun. LLANBERIS – Noson o Gân yng Nghapel Coch, i ddechrau am 8 o'r gloch.
Gorff. 10, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist yn y Ganolfan am 7.30. WAUNFAWR – Rali geir dan nawdd Pwyllgor Lleol yr Eisteddfod.
Gorff. 11, Mawrth – WAUNFAWR – Pêl-droed 5 bob ochr. Er budd Cronfa'r Eisteddfod. LLANBERIS – Bingo yn y Ganolfan am 7.30.
Gorff. 12, Mercher: WAUNFAWR – Gemau Giamocs. LLANBERIS – Cystadlaethau Dartiau yng Ngwesty'r Castell am 8 o'r gloch. Disco yn y Ganolfan i blant iau am 7 o'r gloch.
Gorff. 13, Iau: BETHEL – Sefydliad y Merched. YR ARDAL – 'Canu'r Werin' yn Theatr Seilo am 8.30. WAUNFAWR – Dringo'r Foel – Taith Gerdded Noddedig at Gronfa'r 'Steddfod. LLANBERIS – Gemau Giamocs yn Ddôl y Goeden am 6.45.
Gorff. 14, Gwener: WAUNFAWR – Coroni Brenhines y Carnifal a Mabolgampau.
PENISARWAUN – Helfa Drysor.
LLANBERIS – Mabolgampau yn Ddôl y Goeden am 5.45.
orff. 15, Sadwrn – PENISARWAUN – Gwibdaith flynyddol Sefydliad y Merched i Landudno. LLANBERIS – Y CARNIFAL. Ras Pen yr Wyddfa.
DEINIOLEN – Helfa Drysor dan nawdd Cangen Plaid Cymru. WAUNFAWR – Y CARNIFAL. Swper y Carnifal yng Ngwesty'r Afr, Beddgelert
Gorff. 16–22: Wythnos Garnifal Cwm-y-glo.
Gorff. 16, Sul: CWM-Y-GLO – Cymanfa Ganu yng Nghapel y Tabernacl
Gorff. 17, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y Clwb Pêl-droed yn y Ganolfan am 7.30 CWM-Y-GLO – Helfa Drysor a Natur i rai o 10 i 15 oed.
Gorff. 18, Mawrth: CWM-Y-GLO – Noson o Adloniant.
Gorff. 18–22: DINORWIG : Arddangosfa o Gynnyrch diddorol yn y Ganolfan o 2–8 o'r gloch.
Gorff. 19, Mercher: CWM-Y-GLO – Helfa Drysor gyda cheir. LLANBERIS – Bingo dan nawdd Plaid Lafur yn y Ganolfan am 7.30.
Gorff. 20, Iau: CWM-Y-GLO – Gornest Dartiau. LLANRUG – Taith Ddirgel Clwb Blodau'r Grug. LLANBERIS – Sefydliad y Merched – Arddangosfa Gosod Blodau gan Miss Evelyn Vaughan Davies..
Gorff. 21, Gwener: CWM-Y-GLO – Mabolgamau. NANT PERIS – CARNIFAL. PENISARWAUN – Gyrfa Chwist yn Neuadd yr Eglwys am 7.30 LLANBERIS – Clwb yr Henoed
Gorff. 22, Sadwrn: CWM-Y-GLO – Y CARIFAL. Dawns y Carnifal yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.
Gorff. 24, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch. Gyrfa Chwist dan nawdd y St. John's yn y Ganolfan am 7.30.
Gorff. 31, Llun: LLANBERIS – Clwb Methedig Eryri yn y Ganolfan am 2 o'r gloch.

DYDDIADAU I'W COFIO

Awst 11–12: Ymryson Cŵn Defaid Betws Garmon.
Awst 12: Garddwest yng ngerddi Castell Bryn Bras am 2 o'r gloch
Awst 19: Taith Noddedig Seindorf Deiniolen.

## CROESAIR RHIF 26



**AR DRAWS:**

1. Safle (7)
5. Llestr (5)
8. Merch Ddidwyll (5)
9. Darlun – gwneud yn hawdd ei ddeall (7)
10. I roddi mellt (anagram) (9)
12. Milain (3)
13. Dangos (6)
14. "...... .....f yn hen a pharchus, Ac arian yn fy nghod," (3.3.)
17. Ar ôl hynny (3)
18. Archwilio'n fanwl – eich tad yn methu nofio? (9)
20. Begera (7)
21. 'Roedd un enwog o'r enw Pritchard yn Llanymddyfri (5)
23. Urddasol, Brenhinol (5)
24. Wedi ei ddarnio (7)

**I LAWR:**

1. '..... a Gomorrah' (5)
2. Megis (3)
3. Rhowch eich bys yn y tân ac fe gewch chi un (7)
4. Gwyntoedd ysgafn (6)
5. Caeau (5)
6. Rhan o Gymru (3.6)
7. Gweithdy'r gwyddonydd (7)
11. Symudiadau'r môr (4.1.4)
13. Dau gyfer (erw) (3.4)
15. Diflas, annymunol (7)
16. Mae nhw'n odli (6)
18. Dywed rhai fod hyn yn ddisgrifiad teg o lawer o farddoniaeth fodern (5)
19. Eiddew (5)
22. Brwydr (3)

**Cyfrifir y llythrennau canlynol fel UN llythyren:**

Ch; dd; ff; ng; ll; ph; rh; th.

Gwobr o £1 i'r ateb cywir cyntaf a dynnir wedi i'r holl gynigion ddod i law.
Anfoner y cynigion fel arfer i:
**Myrddin Owen, 32 Stryd Fawr, Llanberis**

**ATEBION RHIF 25**
**AR DRAWS:** 1. Symudol; 5. Sydyn; 8. Iechyd; 9. Fersiwn; 10. Treffynnon; 12. Ave; 13. Brithyll; 14. Amheus; 17. Offa; 18. Protestio; 20. Alltudio; 21. Gloes; 23. Didol; 24. Israddol.
**I LAWR:** 1. Saint; 2. Moch; 3. Dodwy Wy; 4. Lafant; 5. Seren; 6. Deinameit; 7. Nant Eos; 11. Eliffantod; 13. Brogäod; 15. Moesgar; 16. Coroni; 18. Pedol; 19. Oesol; 22. Oedd.

ENILLYDD CROESAIR RHIF 25
**Dilys Wyn Jones,**
**27, Dôl Elidir, Llanberis.**

## AR WERTH

**Cwpwrdd Dillad** – £2.
**Cadair Esmwyth** – £2.
**Gwely Dwbl** (gwely sy'n plygu – math 'Z') – £5.
**Bwrdd Gwisgo** (Dressing Table) – £1.
Peter W. Hughes, Graianfryn, Stryd yr Orsaf, Llanberis.
**Bwrdd cegin formica top melyn a 4 cadair felyn** – fel newydd.
**Soffa a 2 gadair frown (Brethyn)** – fel newydd
**Grât fodern** – lliw gwyn a 'bronze'.
–Mrs. Saynor Llanberis 357.


**CYFIAWNDER I CHWARELWYR**

**Gorymdaith Fawr yn Llanberis**

**Dydd Gwener, Gorff 7ed.**

Ymgynnull yn y Ganolfan am 1·00 o'r gloch

Dewch yn llu o bob rhan o Wynedd



**GORS BACH PANEL BEATING SERVICE Cwm-y-glo**



**Ffôn : LLANBERIS 814**

**GWASANAETH TORRI-LAWR 24 AWR**

# CHWARAEON

**DAETH y gaeaf hir i ben o'r diwedd, a gwawriodd tymor yr haf. Tymor athletau, criced, tenis, – tymor p'nawn Sadwrn ar lan y môr, tymor tripiau'r Ysgolion Sul a'r carnifal.**

**Tymor y torheulo ac anghofio popeth am y bêl-droed – ia, ond fe anghofiodd rhywun a dweud wrth y tywydd, a bu mwy o bêl-droed ar y teledu yn ystod y dair wythnos olaf nag a fu, mi gredaf, drwy gydol y tymor.**

**Cystadleuaeth Cwpan y Byd yn yr Ariannin, ond pêl-droedwyr tipyn gwahanol fu'n cystadlu am Dlws Eco'r Wyddfa yng Ngharnifal Llanrug, a'r pêl-droedwragedd (os ca'i fathu'r fath derm) hyn sydd fwyaf cyfrifol am y ffaith mai'r bêl gron sy'n mynd â'r rhan fwyaf o ofod y dudalen ôl unwaith eto.**

## Deiniolen 2 Penisarwaun 1

Pennawd anarferol a dweud y lleiaf, ond gêm anarferol mewn cystadleuaeth anarferol oedd hon. I rhywun ar Bwyllgor Carnifal Llanrug mae'r diolch fod tadau'r ardal wedi aros adre' i warchod yn ddiweddar tra fo'r gwragedd yn ymarfer ar y cae pêl-droed, ond daeth gorchwyl gŵyr Llanberis a Llanrug i ben pan gurwyd timau eu gwragedd yn y rowndiau cyn-derfynol.

Y 'ffeinal' felly ar gae pêl-droed Llanrug a thyrfa dda, gan gynnwys tîm mawr y pentref a'u pwyllgor (wedi dod i ddysgu tipyn mae'n amlwg) wedi ymgynnull i gefnogi. 'Roedd un-ar-ddeg merch ym mhob tîm (ac eithrio'r munud neu ddau o ansicrwydd pan fu dwsin o ferched Penisarwaun yn methu â phenderfynu pwy oedd i adael y cae) a phêl-droed rhyngddynt, ac yno, fe feiddiaf ddweud, y derfydd pob cymhariaeth rhwng hon â gêm bêl-droed. Hwyl oedd hanfod y noson, ac yng nghanol yr hwyl llwyddwyd i rwydo deirgwaith a methu ag un gic gosb.



*Tîm Pêl-droed Merched Penisarwaun. Colli fu eu hanes yn y gêm fawr.*



*Mr. Twrog Jones, Golygydd Newyddion Cyffredinol Eco'r Wyddfa yw'r dyn lwcus a gafodd y fraint o gyflwyno'r tlws i'r tîm buddugol*

### PYTIAU

Y tymor nesaf sydd ar feddwl prif dimau'r ardal, ac mae'r newyddion o'r ddau bentref yn awgrymu eu bod yn bwriadu cadw os nad gwella ar y safon uchel a osodwyd y tymor diwethaf.

'Does dim newid o gwbl i fod yng Nghlwb Llanrug, mae Howyn Jones wedi derbyn gwahoddiad i reoli'r tîm am dymor arall, ac mae eisoes wedi sicrhau llofnod pob un o chwaraewyr y llynedd. Am flwyddyn yn unig y cytunodd Selwyn Allsup i reoli tîm Llanberis, ac eleni penodwyd Ray Harding i'r swydd. Dymunwn bob llwyddiant iddo, gan sylweddoli bod iddo gymorth o'r radd uchaf yn Lal Jones, ei dad-yng-nghyfraith.



*Enillwyr Tlws Eco'r Wyddfa yng Ngharnifal Llanrug – Merched Deiniolen.*

## CRICED

Cyn belled ag y gwn i, 'does dim traddodiad o chwarae criced yn ardal *Eco'r Wyddfa*, chlywais i erioed am dîm o'r fro, ac ni welais erioed ddarlun o dîm. Mae deunydd cricedwyr ardderchog ar gael er hynny, a saif llwyddiant tîm dan 14 oed Ysgol Brynrefail yn brawf o hynny.

'Dydi'r hogia wedi colli'r un gêm y tymor yma, ac wedi cyrraedd rownd gyn-derfynol Tlws Criced Ysgolion Gwynedd.

Mewn gêm 20 pelawd yn y rownd gyntaf, dinistrwyd batwyr Ysgol Dyffryn Nantlle am ddim ond 30 o rediadau. Un wiced yn unig a ddisgynodd yn nhîm yr ysgol cyn cyrraedd y 34 angenrheidiol. Ysgol Friars, Bangor fu'n eu gwrthwynebu yn yr ail rownd, a threchwyd hwy mewn gêm agos iawn o 103 i Friars a 104 am 9 wiced i Frynrefail mewn 30 pelawd. Yn y drydedd rownd trechwyd Ysgol St. David's Llandudno. Ar ôl sgorio 76 rhediad am 6 wiced yn eu 30 pelawd, – bowliwyd batwyr St. David's allan pob un am 60 rhediad.

Chwaraeir y gêm gyn-derfynol yn erbyn Ysgol Harlech ar gae criced Porthmadog ar ôl arholiadau'r ysgol, ac os bydd llwyddiant yno, y ffeinal yn erbyn un ai Ysgol Porthaethwy neu Fethesda ym Mron Dinas yn ystod wythnos ola'r tymor.

Mae'r rhagolygon am y tlws yn dda, yn enwedig os byddant yn wynebu Bethesda yn y rownd derfynol, gan eu bod eisoes wedi eu trechu mewn gêm gyfeillgar o 4 wiced mewn ugain pelawd.

Daeth buddugoliaeth i fechgyn o dan 13 oed yr ysgol hefyd yn eu hunig gem yn erbyn Ysgol Segontium. Brynrefail 69, Segontium 65. Llwyddiant ysgubol i'r ysgol felly, ond pam nad oes tîm i oedolion yr ardal? 'Rwy'n adnabod bump o leiaf sy'n chwarae i dimau y tu allan i'r fro ac mae amryw o rai eraill a'r gallu a'r diddordeb ganddynt.

Beth amdani? Beth am dîm criced yn un o bentrefi *Eco'r Wyddfa?*

## ATHLETAU

Yn dilyn eu llwyddiant yng nghyfarfod mabolgampau Gwynedd ar gae'r Coleg Normal ym Mangor bydd dau o blant yr ardal yn cystadlu â goreuon ysgolion Cymru ym Mae Colwyn ddydd Sadwrn, Gorffennaf 1af yn y cyfarfod Genedlaethol. Alison Jones o Benisarwaun, disgybl trydedd flwyddyn yn Ysgol Brynrefail yw pencampwraig Ysgolion Gwynedd ar y Naid Hir i enethod lau. Nid dyma ei llwyddiant cyntaf yn y gamp hon, a hyderwn y bydd iddi'r hawl yn fuan i fynnu'r teitl – 'pencampwraig Cymru'.



Wyn Evans o Landdeiniolen fydd ein hail gynrychiolydd – daeth yn ail yn y ras ffos a chlwydi (steeplechase). 'Does fawr o brofiad ganddo yn y ras arbennig hon gan nad yw'r adnoddau ar gyfer ymarfer ar gael iddo yn yr ysgol, ond mae Wyn yn gystadleuwr ardderchog, ac ewyllys enillwr ganddo ynghyd â phrofiad o rasio dros bellter o filltir a mwy.

Yng nghyfarfod Gwynedd hefyd enillwyd tystysgrifau am gyrraedd safon gan Cheryl Edwards o Benisarwaun, Wendy Williams (daeth yn ail yn y ras 1500 medr) Carys Williams (aelod o'r tim a ddaeth yn ail yn y ras gyfnewid), Dafydd Arfon Hughes am daflu'r bicell a Michael Darwood yn y naid uchel.

Daeth Robin Williams yn drydydd gyda'r ddisgen ac Owen Griffith yn drydydd gyda'r pwysau ond y ddau, yn anffodus, yn methu â chyrraedd y safon uchel a osodir yn y cyfarfod yma ac ennill tystysgrifau.